YR YMOFYNYDD.

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

HYDREF, 1872.

MAE HI O HYD YN FYW.

DYWEDIR am bwy bynag a adrodda yr un 'stori yn fynych ac am hir amser, hyd yn nod pe gwyddai nad yw yn wir, ei fod ef ef ei hunan yn debyg o ddod o'r diwedd i gredu ei bod felly. Rhywbeth cyffelyb i hyn, debygem, yw y sail sy gan rai Trindodwyr i dybied fod Undodiaeth ar fin chwythu yr anadliad olaf. Yr ydys wedi adrodd ac ailadrodd y 'stori gynnifer o weithiau fel p'un ai gwir ai peidio, y darbwylla llawer eu hunain i gredu nad yw ei thrancedigaeth yn mhell.

Rhyw ddeugain mlynedd yn ol tystiodd meddyg duwinyddol medrus iawn, un Mr. Isaac Taylor, fod Undodiaeth y pryd hwnnw yn dra gwael ac egwan—fod ei thai-cyrddau yn anghyfanedd oddieithr ychydig yn y prif drefydd, megys Lerpwl, Birmingham, a Llundain. Yn y flwyddyn 1859 ysgrifenodd Dr. Vaughan yn y *British Review* am Undodiaeth, ei bod wedi traddodi ei chenadwri, ac os yw o hyd yn llais, mai rhyw lais grwgnachlyd ydyw—llais un yn llefain yn y diffaethwch. Rhoddodd un Dr. M'Crie gyfarthiad yn yr un traill. Cafodd allan fod ei thai-cyrddau yn fath o *ddwnjwns,* ac mor anghyfanedd ag oeddynt yn 1830, pan y taflodd Mr. Taylor gipolwg i mewn iddynt. Yr oeddynt yn cael eu cadw yn agored yn unig gan fyfyrwyr, lleygbregethwyr, neu ymweliadau damweiniol. Mae Mr. Curteis, yr hwn a draddododd y *Bampton Lecture* y flwyddyn ddiweddaf, yn sylwi ei fod yn credu yr addefir yn gyffredin am Undodiaeth ei bod yn gwywo, ac i fod y corph yn diflanu. Nid oes nemawr o wythnosau er pan y sylwodd ysgrifenwr

yn y *Daily Telegraph* y'nghylch Mr. Martineau, fel awdwr arddansoddol, y gallasai fod gydâ'r blaenaf yn ei oes oni bai ei fod wedi dewis aros yn mhlith sect ag sydd yn marw. Ac fel y gwyr ein darllenwyr, nid oes dim llawer oddiar pan ddywedodd golygydd y *Faner* yr un 'stori. Oddiwrth rhyw arwyddion yn Boston, nid oedd dim amheuaeth ganddo nad oedd Undodiaeth yn mron ymestyn y goes, fel y dywedir, yn enwedig yn y byd Gorllewinol, ac yr oedd y ffaith, medd y gwr parchus, yn rhoddi hyfrydwch neillduol i'w enaid, am fod yr Undodiaid "yn gwadu duwdod ei Arglwydd," gan nad beth ddeallai wrth y frawddeg anmhenodol.

Rhaid fod yr hyn a ddywed pawb yn wir, er hyny mae Undodiaeth o hyd yn fyw! Er i fod deugain mlynedd wedi pasio oddiar pan feddyliwyd gyntaf ei bod yn clafychu, mae eto ar dir y byw, ac yn artuoedd o iach, oddieithr, fe ddichon, ambell bŵl yn awr ac yn y màn, i'r hyn mae'r cyfansoddiadau cryfaf ar brydiau yn agored. Dywedodd rhyw un unwaith am y cloron, eu bod yn perthyn i dylwyth gwenwynllyd, ac i fod gwenwyn ynddynt hwythau. Atebodd rhyw un arall, os oedd gwenwyn ynddynt, ei fod yn wenwyn lled araf, o herwydd yr oedd e yn ymborthi arnynt ys rhagor na deugain mlynedd, a'i fod yn teimlo mor iach y pryd hwnnw a phan ddechreuodd eu bwyta. Felly y gellid sylwi am Undodiaeth, os yw yn glaf a gwenwyn yn ei chyfansoddiad, mae'r gwenwyn yn lled ddeyr yn ei waith.

Ond os nad yw Undodiaeth yn fwy anhwylus na rhyw enwad arall yn gyffredin, rhesymol yw gofyn beth yw'r achos fod meddygon mor graffus â'r sawl a enwyd, yn tybied eu bod yn canfod arwyddion darfodedigaeth yn ei chorph? Mae rhyw achos yn ddiau. A ydynt yn sicr eu bod yn swmpo ei phwls yn iawn? Yr ydym wedi bod yn meddwl yn dra difrifol ar y pen, ac wedi gorfod dod i'r casgliad yn y diwedd fod gan ddymuniad y meddygon ran nid bychan yn y casgliad a dynant—efallai yn fwy nac unrhyw arwydd neillduol a ganfyddant yn ei chyfansoddiad. Dymunir iddi farw, am hyny y mae yn marw. Nid ydym ni yn dyweyd dim am gywirdeb y casgliad hwn, ond y mae yn un tra chyffredin. "*The wish*," medd y Sais, "*is father to the thought.* Paham y dymunir ei mharwolaeth?

Nid anhawdd iawn fyddai ateb y gofyniad hwn? Mae yn amlwg nad oes un math o berthynas na chydymdeimlad rhwng Undodiaeth a "Iawnffyddiaeth," ac nas gall fod chwaith. Os yw un yn wir, mae'r llall yn anwir. Os yw un i fyw a blaguro, rhaid i'r llall farw. Maent mor groes a hyny yn eu nhatur. Nis gallant gydoesi, oblegid nid oes dwy elfen yn fferylliaeth yn groesach nad yw y ddwy elfen dduwinyddawl hyn. Mae y duwinyddion iawnffyddiol wedi canfod hyn er ys hir amser bellach. Yn ol Iawnffyddiaeth peth oddiallan i ddyn yw iechydwriaeth. Cynllun ydyw a ddyfeisiwyd ryw bryd gan bersonau y Drindod, ac a ddanfonwyd i lawr i'r ddaear i ddynion i gredu ynddo. Mae iechydwriaeth yn gynwysedig yn nghredu y cynllun. O'r tu arall, dysga Undodiaeth mai yn enaid y dyn ei hun mae iechydwriaeth—mewn rhinwedd, purdeb calon, sancteiddrwydd, yn fyr, mewn cyffelybrwydd yn ein hanian i Dduw. Yn ol Undodiaeth, peth yw iechydwriaeth a raid i ddyn weithio allan trwy iawn

ddefnydd o'r moddion ag y mae Duw wedi roddi iddo; ond yn ol Iawnffyddiaeth, peth i'w dderbyn yw iechydwriaeth—peth i gael oddiallan i ddyn. Mae gwahaniaeth egwyddorol yma. Hefyd y mae nefoedd yr Undodwr yn dra gwahanol i ddychymyg dynion yn gyffredin am dani. Cyflwr yw nefoedd yr Undodwr, lle yw nefoedd yr Iawnffyddiwr. Mewnol yw nefoedd un, allanol yw nefoedd y llall. Yn ol barn yr Undodwr nid yw y lle ddim o gymmaint pwys. Byddai uffern yn nefoedd i'r hwn a fedd y ddwyfol anian. Nid dyma olygiadau'r Iawnffyddiwr. Y lle sydd i'w wneuthur ef yn ddedwydd. Ond cael myned i'r man neu y lle hwnnw bydd pob peth yn dda. Ond nid awn ni y'mlaen y'mhellach ar y pen hwn, oblegid nid dyma ein pwnc.

Os, gan hyny, unffurfiaeth barn grefyddol sydd i fod yn sail undeb eglwysig, fel mae'r byd hyd yma wedi meddwl, nis gall dim undeb fod rhwng Undodiaeth a Iawnffyddiaeth; am hyny mae rhyw fath o gasineb neillduol gan yr olaf at y blaenaf. Nis gall yr Iawnffyddiwr trwyadl a iachus yn y ffydd lai nag ystyried yr Undodwr yn ddyn colledig, nac Undodiaeth ond fel athrawiaeth enaid-ddinystriol. Pwy ryfedd am hyny fod Iawnffyddwyr yn dymuned gweled marwolaeth Undodiaeth—athrawiaeth sydd yn gwadu y cynllun trwy yr hwn y creda fod yn rhaid iddynt fod yn gadwedig? Dichon y tybia rhai ein bod yn gwneuthur Iawnffyddiaeth i ymddangos yn gulach nag ydyw. Nid yw y sawl a dybia felly wedi deall Iawnffyddiaeth. Nis gall neb, yn ol Iawnffyddiaeth, na chred yn y cynllun fod yn gadwedig, oblegid yn hyny mae iechydwriaeth yn gynwysedig. O ganlyniad mae mor guled ag y caua allan o'i nhefoedd bawb na chred—maent oll yn golledig am byth! Yr ydym yn addef gydâ phleser fod llawer yn mhlith yr Iawnffyddwyr yn helaethach eu barn na hyn; ond Iawnffyddwyr mewn enw yn unig ydyw y cyfryw. Nis gall Iawnffyddiaeth o'r *real stamp* gredu y caiff un Undodwr fyned byth i'r nefoedd. Mae mor galed a hyna, ac nid yw yn hawdd bod lawer culach. Nis gall neb fod yn rhyddfrydol, ond y sawl sydd wedi llyncu, i raddau mwy neu lai, yr egwyddorion Undodaidd. Am hyny, gan i fod Iawnffyddiaeth ac Undodiaeth mor egwyddorol groes, nid yw ryfedd fod Iawnffyddwyr yn dymuned i Undodiaeth drengu.

Yr unig achlysur, ar a wyddom ni am dano, a gafodd ein gwrthwynebwyr ar y cyntaf i gyhoeddi fod Undodiaeth yn marw, ydoedd darfodiad rhai o'r capeli henadurol yn Lloegr a ddaethant i feddiant yr Undodiaid. Mae yn wir i amryw o honynt ddarfod trwy ryw achosion neu gilydd. Dichon fod diffyg sel ac ymdrech wedi bod yn rhan. Pa fodd bynag, ymddengys i ni fod y casgliad wedi bod yn un tra byrbwyll, sef i fod y corph Undodaidd yn darfod am i fod rhyw hanner dwsin o hen gynulleidfaoedd yma a thraw ar hyd Lloegr yn marw allan. Gellid casglu yr un mor gystal fod Iawnffyddiaeth yn darfod, o herwydd fod hen gynulleidfaoedd cyffelyb wedi dod i'r dim yn ei phlith hithau. Nid yw'r enwadau poblogaidd yn llwyddo bob amser ac yn mhob man, er hyny nid iawn fyddai casglu eu bod yn marw. Pe chwilid i mewn i'r peth, credwn y ceid fod mwy o gapeli newyddion ac o gynulleidfaoedd newyddion wedi eu sefydlu yn ein

henwad, nac sydd o hen gapeli a hen gynulleidfaoedd wedi diflanu. Ac y'mhellach, mentrwn ddyweyd fod Undodiaeth, yn ol ei maintioli dechreuol, wedi gwneuthur mwy o gynnydd nac un enwad Crist'nogol arall trwy yr holl fyd, yn ystod y tri-ugain mlynedd diweddaf. Pan y tiriodd Dr. Priestley yn America yn 1794, nid oedd ddim cymmaint ag un gynulleidfa Undodaidd yn y wlad. Mae yno y dydd heddyw dros bedwar cant. Undodiaeth sydd yn awr yn cael ei phregethu hyd yn nod yn mhwlpid John Calvin yn *Geneva!* Faint o gynulleidfaoedd Undodaidd sydd yn *Germany, Holland,* a Ffrainc? Os ystyriwn mai yn y flwyddyn 1811 y caniatawyd i Undodiaid gyntaf i addoli yn y wlad hon yn gyhoeddus heb fod mewn perygl o gosp, y syndod yw fod ein henwad wedi gwneuthur cymmaint o gynnydd.

Ond pe celai ein gwrthwynebwyr eu dymuniad i weled Undodiaeth, fel enwad, wedi trengu, nid ydym yn gallu canfod y byddai hyny yn fawr o gysur iddynt tra fyddai'r egwyddorion yn fyw. Llawer mwy o bwys ydynt hwy na'n henwad. Mae yn bosibl, er nid yn debyg, i'n henwad farw, neu gyfnewid i ryw ddull gwahanol; ond am yr egwyddorion, maent hwy yn anfarwol. Mentrwn ddyweyd mai yr un pryd y darfyddant ag y derfydd y natur ddynol, neu y Duwdod ei hun. Mae yn eithaf amlwg hefyd i bawb a ddaliant sylw eu bod yn ymdaenu trwy yr holl fyd Crist'nogol. Er cymmaint y gofal i'w cadw allan o wersylloedd Iawnffyddiaeth, maent yn *ffeindio* eu ffordd i mewn hyd yn nod i lys y Pab. Os na chaiff ieuenctyd y cynulleidfaoedd Trindodaidd ddarllen ein llyfrau yn gyhoeddus, maent yn eu darllen yn lledradaidd. Mae hyd yn nod y Wesleyaid yn methu eu cau allan. Mewn gair, byddai yr un mor ofer i Iawnffyddwyr geisio lluddias ymchwydd y Weilgi Atlantaidd, a cheisio cau allan o'u heglwysi yr egwyddorion Undodaidd. Ni fyddai yn fawr enill iddynt weled ein henwad yn marw, oni allent gladdu ein hegwyddorion yn yr un bedd.

Esboniad.

Meddwl y geiriau eiriol *ac* eiriolwr *yn neillduol pan eu cymhwysir at Grist.*

Defnyddir y ferf *eirioli* oddeutu saith o weithiau yn y cyfieithad Cymraeg, a'r sylweddair *eiriolwr* ddwy waith, os nad ydym yn camsynied.

Gen. xxiii. 8.—"Eiriolwch (Hebraeg *wphigw)* trosof ar Ephron fab Sohar," medd Abraham wrth feibion Heth pan oedd yn ymofyn lle i gladdu Sarah.

1 Sam. ii. 25.—"Ac os yn erbyn yr Arglwydd y pecha gwr, pwy a eiriol (Heb. *yithphallel)* drosto ef?"

Esaiah liii. 12.—"Ac a eiriolodd (Heb. *yappegiah)* dros y troseddwyr."

Jer. vii. 16.—"Am hyny na weddia dros y bobl hyn, ac na ddyrchafa waedd na gweddi, ac nac eiriol (Heb. *tiphgang*) arnaf."

Jer. xxvii. 18.—"Ond os prophwydi ydynt hwy . . . eiriolant

(Heb. *yiphgehw)* ar Arglwydd y lluoedd na elo y llestri a adawyd yn nhy yr Arglwydd . . . i Babylon."

Actau xxvii. 33.—"A thra oedd hi yn dyddhau, Paul a eiriolodd (Groeg *parekalei*) ar bawb i gymmeryd lluniaeth."

Heb. vii. 25.—"Am hynny efe a ddichon hefyd gwbl iachau y rhai trwyddo ef sydd yn dyfod at Dduw, gan ei fod yn byw bob amser i eiriol (Gr. *eis to entuchanein*) drostynt hwy."

Nid ydym yn gwybod fod y gair yn cael ei arferyd yn un man arall yn y Beibl Cymraeg. Y'mhob un o'r adnodau uchod mae yn meddwl *cyfryngu*, neu *geisio cais* dros ryw un gan arall a fedda allu i ddangos ffafr, naill ai trwy faddeu trosedd, neu ynte ganiatau rhodd neu genad.

Nid yw'r gair *eiriolwr* i'w gael ond mewn dau fan yn unig.

Esaiah lix.—"A rhyfeddodd nad oedd *eiriolwr* (Heb. *maphgiang*)."

1 Ioan ii. 1.—"Fy mhlant bychain, y pethau hyn wyf yn eu hysgrifenu attoch, fel na phechoch. Ac o phecha neb y mae i ni *eiriolwr* (Gr. *parakleton*) gydâ'r Tad, Iesu Grist y cyfiawn."

Defnyddir gan Ioan y gair Groeg *parakletos*, a gyfieithir yma *eiriolwr*, bedair gwaith hefyd yn ei Efengyl (xiv. 16, 26 ; xv. 26 ; xvi. 7,) lle mae yn cael ei gyfieithu *Diddanydd.*

Gair llysiol yw *parakletos*, ac yn dynodi yn agos yr un peth â'r geiriau Saesneg *advocate, counsel,* neu *barrister.* Nid annhebyg oedd swydd y *paraketlos* i swydd *counsel* yn bresenol, sef amddiffyn achos y cyhuddedig o flaen y barnwr. Os na fyddai yn bosibl ei gael yn rhydd, gwnelai ei oreu i linaru *(mitigate)* y ddedfryd trwy eiriol ar y llys drosto. Yr oedd yn ei swydd hefyd i egluro a chynghori ei *gleient* neu y cyhuddedig beth i wneud, a dangos iddo y modd goreu i amddiffyn ei hun. Am hyny yr oedd y *parakletos* yn gynhorthwy ac yn ddyddanwch iddo yn ei galedi. Cysurai ef i beidio gofidio am nad oedd ei achos yn ddrwg iawn, ac y byddai yn debyg o ddod yn rhydd. Dyma'r rheswm paham y galwai'r Iesu *parakletos* ar "ysbryd y gwirionedd," y gallu gwyrthiol, neu beth bynag oedd, oblegid eglurai iddynt feddwl Duw. Byddai yn ddyddanwch iddynt. Cynghorai hwynt beth i ddyweyd a gwneud pan yn cael eu herlid o achos y gwirionedd. Yr oedd i lanw lle yr Iesu pan fyddai wedi ymadael, oblegid nid oeddynt i gael eu gadael yn unig. Gydâ phrioldeb mawr, gan hyny, mae yn cael ei gyfieithu *diddanydd,* oblegid ni allasai dim weini mwy o gysur iddynt wedi ymadawiad eu hanwyl gyfaill a'u hathraw tyner, na phresenoldeb y gallu dwyfol yn eu hyfforddi beth i wneuthur mewn amgylchiadau cyfyng, a pheth i ateb pan yn cael eu dwyn o flaen brawdlysoedd o herwydd enw yr Iesu.

Nid gydâ llai o briodoldeb hefyd mae'r un gair yn yr adnod uchod yn Epistol cyntaf Ioan yn cael ei gyfieithu *eiriolwr.* "Ac o phecha neb mae i ni eiriolwr, neu *advocate,* gydâ'r Tad, Iesu Grist, y cyfiawn"—un i ddadleu ein hachos, ac i weddio ar y Tad drosom. Y meddwl yw, nad ydyw y tirion Iachawdwr, yr hwn a weddiai dros ddynion pan ar y ddaear, ac a gydymdeimlai â hwynt pan yn eu gwendid a'u hanmherffeithderau, yn eu anghofio, nac wedi colli ei ddydddordeb yn eu dedwyddwch, pan yn ei gyflwr dyrchafedig yn y nef.

Gwyddom yr esgusoda pob darllenydd hynaws ni am gynyg ychydig sylwadau chwanegol ar bwnc mor bwysfawr ag eiriolaeth Crist. Os yw ein golygiadau arno yn wahanol i olygiadau ein brodyr yn gyffredin, ni fydd hyny yn un rheswm i beidio rhoddi i ni wrandawiad, oblegid mae gan bob dyn hawl i farnu drosto ei hunan.

Yr ydym ni yn credu yn eiriolaeth Crist. Credwn ei fod yn beth eithaf rhesymol a hollol gysson â threfn rhagluniaeth Duw yn y byd hwn, lle mae ei blant yn ymddibynu ar eu gilydd am eu dedwyddwch. Mae dynion yn cydymdeimlo â'u gilydd yma. Ai rhesymol meddwl eu bod yn cael eu hamddifadu o'r anian nefolaidd hon yn y byd arall? Mor belled ag y gallwn ganfod, nid oes un gwrthrych nac un creadur byw, yn ymddibynu arno ei hun. Mae hyd yn nod y bodau wybrenol yn ymddibynu ar eu gilydd. Mae pob gwrthrych yn y greadigaeth wedi cael ei wneud i gynorthwyo eraill, ac i dderbyn cynorthwy oddiwrth eraill. Yr ydym oll yn ymddibyuu ar ein gilydd am ein bodolaeth a'n dedwyddwch. Y plant ar eu rhiaint a'r rhiaint ar y plant, yr athraw ar y dysgybl, y tlawd ar y cyfoethog—pawb ydynt yn sefyll mewn eisiau o'u gilydd. Dyma drefn y Creawdwr, ac afreidiol yw sylwi ei bod yn drefn ddoeth a daionus.

Ai gwrthun yw tybied fod yr un fath drefn yn cyrhaedd i fyd yr ysbrydoedd, ac i fod swydd yr Iesu yn rhan o'r drefn? Er nad ydyw yn awr ar y ddaear, ymddengys i ni, er hyny, mai rhesymol yw tybied fod ei gyd-deimladrwydd o hyd gydâ'i eglwys. Yr oedd yn gweddio dros ei ddysgyblion pan oedd yma, paham na chredwn ei fod byth yn parhau i wneuthur yr un peth? Nid yn uniongyrchol o'i law ei hun y rhodda Duw ei fendithion, ond trwy gyfryngau. Mae efe ei hun megys yn cadw o'r neilldu—yn guddiedig—fel y byddo i'w blant gael cyfleusdra i ymarfer rhinwedd a chwrteithio cyd-ymdeimladrwydd â'u gilydd. Fel hyn, mae yn rhesymol meddwl, y lluosoga wrthrychau ein cariad a'n diolchgarwch trwy ordeinio i fod bendithion ysbrydol hefyd, yn unol â'r drefn fawr gyffredinol, i'w gael eu cyflwyno trwy eiriolaeth y Cyfryngwr.

Ac onid yw hyn yn gysson â threfn ei ragluniaeth fel y mae yn cael ei hegluro yn yr Ysgrythyrau? Nid ychydig yw'r enghreifftiau o fendithion yn cael eu caniatau trwy eiriolaeth a gweddi y duwiol. Gwrandawodd Duw ar Abraham, pan oedd ar fedr dinystrio Sodom. Arbedasai y lle pe cawsai ynddo ond cymmaint a phump o drigolion cyfiawn, a hyny ar gais y patriarch. Yn fynych bu taer-eiriolaeth Moses yn foddion i waredu plant Israel rhag y gosp a haeddent am eu hanufudd-dod. Pe fyddai gofod, gallem gyfeirio at lawer o enghreifftiau cyffelyb. Yr oedd yr Iesu hefyd yn eirioli. Gweddiodd dros Pedr rhag syrthio i brofedigaeth; gweddiodd dros ei ddysgyblion a phawb a gredent yn eu hymadrodd. Gweddiodd hyd yn nod dros y sawl a'i gosodasent i farwolaeth. Gwnaeth hyn pan oedd yn y cnawd, a phan wrth gwrs yn llai perffaith nag y dysgwyliem ei fod yn ei gyflwr ysbrydol. A ydyw yn awr wedi cyfnewid—wedi myned yn llai teimladwy—neu ynte a ydyw wedi ei symud yn rhy bell o'r byd hwn i allu gwybod amgylchiadau ei eglwys?

Nid yw yn rhy bell. Os yw'r hanes sy genym yn wir, ac nid oes

rheswm i amheu ei eirwiredd, darfu i'r Iesu wedi ei ddyrchafiad o'r byd ddangos ei ofal dros ei eglwys. Ymddangosodd fwy nag unwaith i'w ddysgyblion, a blynyddau wedi hyny i Paul. Ei addewid i'w ddysgyblion oedd, "Wele yr wyf fi gydâ chwi bob amser hyd ddiwedd y byd." Gwyddom fod rhai yn cyfyngu'r addewid i ddinystr Jerusalem, ond ar bwy sail, nid ymddengys. Mwy rhesymol, debygem, yw deall wrth "ddiwedd y byd," ddiwedd yr oruchwyliaeth Grist'nogol; hyny yw, ei fod yn addaw ei bresenoldeb i'w weision ym mhob oes o'r eglwys tra y parhao.

Yr ydym yn rhy barod i gredu nad oes dim cyssylltiad rhwng y byd ysbrydol â hwn, ac oddiwrth hyn, ymddengys i ni, mae'n cyfodi lawer o'n hanffyddiaeth a'n truenusrwydd. Pe fyddem yn Grist'nogion trwyadl, yn adnabod yr Iesu, ac yn rhodio yn ei oleuni, nis gallem lai na thaflu ymaith bob amheuaeth gydâ golwg ar y cyssylltiad agos sydd rhwng y ddau fyd. Canfyddem mai parhad o'r bywyd presenol yw yr un dyfodol, ac nad yw angeu ddim ond trefn Duw i'n dihatru o'r corph, oblegid na all cig a gwaed etifeddu bywyd trag'wyddol. Cyfrwng yn unig yw y corph i'n cyssylltu ni â'r ddaear. Hebddo nis gallem fyw yma. I'r bywyd hwn yn unig y mae yn addas ac elfenau y ddaear yw ei sylwedd.

Ystyrir angeu yn gyffredin fel rhyw gagendor annhramwyadwy yn ysgaru rhwng trigolion y byd ysbrydol a ni; ond a ydyw hyn yn ffaith am angeu? Gwyddom trwy brofiad fod y mwy perffaith yn cynwys neu yn amgyffred y llai. O ran ei alluoedd eneidiol mae dyn yn llawer perffeithiach nac un creadur is-raddol, ac o ganlyniad mae amgylchedd *(range)* ei wybodaeth yn annghydmarol helaethach. Os yw y bywyd ysbrydol gan hyny yn berffeithiach na'r bywyd hwn, (a phwy amheua nad yw?) y tebygolrwydd yw fod gwybodaeth yr ysbrydol yn gymmaint yn helaethach ei derfynau na gwybodaeth y daearol, ag yw y wybodaeth ddynol yn helaethach na gwybodaeth y creaduriaid o is radd. Pa mor bell y cyrhaedda gwybodaeth anneddwyr y byd ysbrydol a pha mor helaeth ydyw, nis gwyddwn. Ond a oes rhyw beth yn afresymol yn y dybiaeth ei fod yn cyrhaeddyd hyd y ddaear, ac i fod ei thrigolion a'i gorchwylion o fewn ei gylchedd? Nac oes. Mae'r dybiaeth yn hollol gysson â'r drefn uchod a ganfyddwn yn natur. Paham ynte na chredwn fod gorchwylion a thrigolion y ddaear yn wybodus yn y byd ysbrydol? Os nad ydynt, pa fodd y gallasai'r Iesu ddyweyd fod "llawenydd yn y nef am bob creadur a edifarhao?" Os felly, mae'r Iesu yn canfod gorchwylion ei eglwys—temtasiynau, helbulon, ac ymddygiad drwg a da ei weision. Mae yn cydymdeimlo â hwynt yn awr fel y gwnelai pan yn y byd, ac yn gweddio—yn eiriol—ar y Tad am weini iddynt nerth i orchfygu y byd fel y gwnaeth yntau, ac hyd y diwedd i "ymdrechu hardd-deg ymdrech y ffydd."

"Ond y mae Duw ei hun," medd rhyw un, "yn drugarog, ac o ganlyniad ddim yn sefyll mewn eisiau i neb eiriol arno ef. Mae efe hefyd yn Fod annghyfnewidiol—ei holl fwriadau a wna, gan nad pa mor daer bynag fyddo eiriolaeth neb o'i greaduriaid." Mae y sylw yn eithaf cywir ac yn teilyngu mwy o ystyriaeth nag a allwn ni roddi iddo yn awr. Ond dywedwn yn fyr mai nid dyben gweddi yw

cyfnewid y Tad. Nid dyben yr Iesu yn eiriol ar y Tad dros ei elynion oedd cyfnewid ei fwriadau na'i wneuthur yn fwy trugarog. Nid dyma ddyben gweddi. Tywalltiad o'n dymuniadau ger ei fron yw gweddi. Arwydd yw o'n llwyr ymostyngiad i'w ewyllys, ac o'n hymddiried yn ei gariad a'i ddoethineb. Nid oes dim amheuaeth genym nad yw taer erfynion y duwiol yn cael eu hateb yn fynych, nid am eu bod yn cyfnewid bwriadau y Tad, ond am eu bod yn gysson â'i ewyllys i'w caniatau; ond y mae yn ammhosibl i neb egluro pa fodd mae eiriolaeth dyn yn effeithio ar drefn y rhagluniaeth ddwyfol, am ei fod yn rhy ammherffaith ei amgyffred i ddeall ffyrdd Duw. Nid ydym, er hyny, heb sail i gredu mai "llawer ddichon taer weddi y cyfiawn."

Yn ddiweddaf, nid peth dibwys yw eiriolaeth Crist i'r neb sydd yn credu yn y ffaith ei fod yn eiriol drosom. Pe gwyddech fod anwyl gyfaill i chwi, calon yr hwn sydd yn un a'ch calon chwi—un a ddymuna eich lles yn y modd difrifolaf—pe gwyddech, meddaf, fod hwn yn ei wneuthur yn un pwynt mawr yn ei addoliad hwyr a boreu i'ch crybwyll ger bron Duw, oni theimlech yn ddwys y fath gyfeillgarwch? Oni ymdrechech wneuthur eich hun yn deilwng o weddiau eich cyfaill, ac o'r bendithion a erfynia ar Dduw i roddi i chwi? Dyweda'r Apostol yn ei epistolau wrth yr eglwysi ei fod ef yn wastadol yn gwneuthur coffa o honynt ger bron gorsedd Duw. Mae rhyw beth sy ddwys iawn yn y meddwl, ac nis gallasai lai na gwneuthur argraff ddofn ar galonau ei frodyr yn Nghrist. Pa mor ofalus, debygem, oedd y meddwl yn eu gwneud yn eu hymddygiadau beunyddiol i ochelyd digio'r Bod graslawn i'r hwn y cymeradwyid hwy gan un mor anwyl! Pa faint mwy effeithiol byth yw eiriolaeth Crist Iesu—taer weddi un sydd fwy na chyfaill—awdwr a pherffeithydd ein ffydd—yr hwn fu farw drosom, ond er hyny yn fyw ac yn eistedd ar ddeheulaw Duw—ïe, fod hwn yn eiriol drosom ger bron y Tad—un wedi "ei berffeithio trwy ddioddefiadau," ac wedi ei "demtio ym mhob peth yr un ffunud a ninnau." Ni fetha yr ystyriaeth chwaith, sef ein bod yn gweithredu dan lygad Tywysog ein milwriaeth, weinyddu i ni adnewydd-deb nerth yn ymdrech y ffydd, a dyfnach cydwybodolrwydd yn nghyflawniad ein dyledswyddau fel gweinidogion ac aelodau. Gweddiwn am i'r ystyriaeth ddwys hon wneud argraff ddyladwy ar ein heglwysi.

DIWEDD Y CYNHAUAF.

TYMORAU ehedant,
A blodau a wywant,
A dail a orweddant
Ar hyd y llawr;
Medelwyr a ganant,
Yd addfed a gludant,
Adar ehedant
Dros y mor mawr.

Ar frys daw'r llym Aua',
Ei wynt a ysgythra,
Pob peth o'i flaen rwyga,
Daw'n dywydd du;
Wrth dân goleuedig,
O friwydd o'r goedwig,
Bydd sionc a methedig,
Yn llechu'n ty.

Ar fyr yr ymlithra
Fel hyn yr oes hwya'
Fe dderfydd yr yrfa,
Gwywa'r hardd wedd.
Dy Wanwyn di ddarfu,
Mae'th Haf dithau i fynu;
Down toc i auafu
I dy y bedd. GALEDFRYN.

DARN UNDODAIDD SIR ABERTEIFI.

Erthygl I.

(Allan o'r *Cylchgrawn* am Awst.)

Mae y darn hwn yn y rhan ddeheuol o'r Sir, ac yn mesur rhyw saith neu wyth ugain o filltiroedd ysgwâr. Mae fel Mesopotomia gynt, yn gorwedd rhwng dwy afon, sef y Teifi a'r Aeron. Mae yn cyrhaedd rhyw 15 milltir ar hyd glan y Teifi—o Llanbedr-pont-Stephan i lawr hyd Llandyssul; a thua'r un faint ar drawsoleddiad o Landyssul hyd Tyglyn Aeron. Cymer ryw 5 milltir drachefn ar hyd glan Aeron, o Tyglyn-isaf hyd Talsarn, o fewn 5 milltir i Llangeitho, a 6 milltir ar draws o Talsarn i Llanbedr. Nid ydym yn proffesu cywirdeb yn ein mesuriad o'r darn, dim ond rhoddi rhyw ddirnadaeth am dano i'r darllenwyr hyny all fod yn anghyfarwydd ag ef. Nid ydym chwaith yn meddwl fod y darn hwn yn hollol Undodaidd, heb un lle o addoliad o'i fewn yn perthyn i enwadau eraill. Na, y mae gan y pedwar enwad, fel eu gelwir, gapelau o'i fewn, heblaw y tai plwyfol sydd gan Eglwys Loegr, ein mam *ni oll.* Ond y mae plant yr hen fam sydd yn y darn hwn yn Undodiaid, gymmaint yn fwy lluosog na'r rhai sydd yn perthyn i un enwad arall ar ei ben ei hun, fel y gellir yn rhesymol ei alw y *darn Undodaidd.* Fel y gellir galw un darn yn Annibynol, am mai yr enwad hwnw bia y mwyafrif o'i ddynion, a darn arall yn Fethodistaidd, am mai yntau sydd a'r mwyafrif: felly, am yr un rheswm y gelwir hwn y darn Undodaidd o'r Sir.

Mae hwn yn ddarn rhyfedd, a rhyfedd iawn, yn ngolwg llawer, ac wedi achosi nid ychydig o siarad ac ysgrifenu er ys mwy na chan' mlynedd. Edrychir arno fel anialwch, heb ei arloesi; tebyg i ganolbarth Affrica neu Awstralia, un sydd wedi bod hyd yma yn anrheiddiedig, ac yn ymddangos eto i raddau pell yn anrheiddiadwy. Dywedir am y lle yr aeth cenedl Israel trwyddo, ar ei thaith i wlad yr addewid, ei fod yn "anialwch gwag erchyll, lle yr oedd seirph tanllyd ac ysgorpionau, a syched lle nid oedd dwfr;" ac nid yw yr anialwch hwn yn ngolwg rhai un mymryn llai peryglus mewn ystyr foesol nag oedd hwnw mewn ystyr naturiol. Edrychir ar Sir Aberteifi fel un uchel-freintiog, grefyddol, ac uchel ei chyrhaeddiadau mewn llawer ystyr; ond y mae yr Undodiaeth sydd wedi ffynu mor fawr, ac wedi greddfu mor ddwfn o'i mhewn, yn cael ei gyfrif yn ysmotyn hynod o ddu ar ei chymeriad. Merch ieuanc, landeg ydyw yn ngolwg Cymru, oddieithr am y *tumour* peryglus sydd wedi tori allan ar un ochr o'i hwyneb; ond oblegid hwnw, ni fyn llawer 'mo honi er ei holl gynhysgaeth a'i rhinweddau da. Yr oedd gwlad Canaan gynt yn wlad dda odiaeth, gwlad yn llyfeirio o laeth a mêl, ond yr oedd y Môr Marw yn golchi ei glanau. Ac er fod yr Iorddonen yn afon enwog, braidd na chyll lawer o hono gyda rhai, gan ei bod yn ymarllwys i'r Môr hwnw. Yr ydym ninau wedi clywed rhai, wrth siarad am y Teifi a'r Aeron, yn gofyn yn ddiflas a chyda thôn bryderus, "Aroswch chwi, onid y ffordd yna y mae Sociniaid Sir Aberteifi?" Wedi i ni ateb yn gadarnhaol, y dywediad cyffredin fyddai, "Trueni hefyd fod Sir mor enwog yn cael ei hanurddo gan y fath sect."

Dyma farn y mwyafrif yn ein gwlad am yr Undodiaid; fel yna yr edrychir ar y darn a gyfaneddir ganddynt, ac y teimlir yn gyffredin tuag ato. A chan fod yn naturiol i Undodiaid, fel pawb eraill, deimlo eiddigedd drostynt eu hunain a'u crefydd, nid yw yn rhyfedd eu bod hwythau yn meddu graddau o'r un farn a theimlad tuag at eraill. Y maent hwy yn ymwybodol fod enwadau eraill yn ddrwgdybus o'u daliadau crefyddol, ac yn teimlo oblegid hyny na ddylai y fath enwad fodoli o gwbl, gan nad yw ond drwg iddo ei hun, a drwg i eraill hefyd; a than ddylanwad y fath ymwybodolrwydd anhyfryd pa fodd y teimla yr Undodiad tuag ato ei hun a thuag at eraill? Nid oes eisiau yr atebiad, ond gofyn pa fodd y teimla y Gwyddel crwydraidd yn nghanol haid o Gymry yn y wlad hon, neu pan yn myned heibio ar hyd y ffordd? Digon hawdd gwybod oddiwrth ysgogiad ei lygaid, ac ystum ei gorph, ei fod yn gwybod barn y Cymry am dano, ac mewn canlyniad nid yw yntau ond ymddwyn fel *Paddy* mewn moesgarwch tuag atynt hwythau. Neu gellid newid y gymhariaeth, a gofyn pa fodd y teimla yr Iuddew yn nghanol Cenhedloedd y ddaear, pan yn ymwybodol am y teimlad a goleddir tuag ato. Mae ganddo ef ei ddull arbenig o fyw ac o grefydda, ac ni fyn ei newid, ac y mae yntau o'r herwydd yn cael ei adael iddo ei hun yn ddirmygedig

gan bawb. Paham felly? paham na chaiff pawb lonydd i fyw fel yr ewyllysiont? Nid oes genym yn atebiad ond dyweyd mai dyma y rheol; os myn rhyw rai fyw yn wahanol i'r cyffredin mewn cymdeithas, bydded eu ffordd yn dda neu yn ddrwg, maent yn sicr o gael graddau o ddirmyg cymdeithas. Ond yr ydym yn gwybod fod y mater sydd genym ni mewn llaw yn bresenol yn fwy pwysig na dull o fyw mewn cymdeithas, a bod a fyno ag egwyddorion uwch na dynol. Ond os awn i ymresymu dros ddwy blaid, rhaid i ni ddyweyd, os oes bai yn bod mewn gwrthdarawiad o'r fath ag ydym wedi nodi, fod yr Undodiaid yn euog o hono gymmaint a neb. Mae yr *Ymofynydd*, eu cymanfaoedd, a'u hymddyddanion cyffredin yn ddigon i brofi hyn. A rhywfodd nid oes yr un enwad yn nod i'w saethau gymmaint a'r enwad Methodistaidd. Maent wedi arfer ei ddirmygu† gymmaint, ac am amser mor faith, fel y mae yr "Hen Fethodist" wedi dyfod yn un o'u digrifenwau, ac yn cael ei ddewis fel un sydd yn fwy sicr o beri chwerthin nag un a arferir ganddynt. Neu os bydd eisiau difrio dyn mewn ymrafael nid oes yr un ffordd yn fwy effeithiol i wneyd hyny na thrwy ei alw yn "Hen Fethodist," gan feddwl wrth hyny fod llawer o dwyll yn perthyn iddo, fel yr haerant hwy, am Fethodistiaid. Nid ydym yn gwybod beth yw yr achos eu bod yn meddwl felly am y Methodistiaid, os nid oblegid y gair *Calfinaidd* sydd mewn cyssylltiad à hwy. Maent yn gweled yn y gair hwn fod rhyw berthynas rhwng yr enwad a Calvin o Geneva, yr hwn fu'n achos o ferthyrdod Michael Servetus, un o honynt hwy. Gall eu bod yn credu fod gan ganlynwyr yr hen ddiwygiwr fwy o elyniaeth atynt nag sydd gan yr un enwad arall; ac y dylent hwythau ymddwyn tuag atynt fel y cyfryw. Neu eu bod yn ei ystyried yn ddyledswydd arnynt i wneud eu goreu yn erbyn canlynwyr a wnaeth gymmaint o ddrwg i'w hachos, ac felly fod eu hymddygiad yn ail-ofyn y cwestiwn baeddgar, "A leddi di ni y modd y lleddaist yr Aiphtiwr ddoe?" ac felly gwneyd i'r Calfiniaid, fel Moses, ffoi. Nid yw y Methodistiaid ac enwadau eraill yn rhydd oddiwrth y bai hwn. Mae yr "Hen Sosin" yn air difriol, fel yr "Hen Fethodist." Fel y mae plant yr Undodiaid yn gwaeddi "Hen Fethodistiaid" ar ol y Methodistiaid, felly y mae plant y Methodistiaid ac eraill yn galw "Hen Sosin" ar ol yr Undodiaid. Ac arferir yr "Hen Sosin" hefyd gan lawer yn yr un ystyr ag y dywedwyd uchod am yr "Hen Fethodist, sef mewn dull o ddifriaeth a digrifwch. Ond y peth sydd yn fwyaf tywyll i'r Undodiaid yn y darn yr ydym yn sôn am dano yw, na byddent hwy yn cael eu parchu gan enwadau eraill, fel y mae enwadau eraill yn parchu eu gilydd; er engraifft, paham na byddai yr Undodiaid yn cael gymmaint o barch gan y Methodistiaid ag y mae y Bedyddwyr, yr Annibynwyr, a'r Weslëaid yn gael ganddynt? Paham y rhaid iddynt hwy ddolefain yn barhaus, "Y mae fy etifeddiaeth i mi fel aderyn brith; y mae yr adar o amgylch yn ei herbyn hi?" Yr ateb a gânt yn gyffredin i'w hymofyniad yw, nad yw yr enwadau eraill yn gwadu yr hyn a farnant hwy yn hanfodion Cristionogaeth. Os ydynt yn amrywio ychydig oddiwrth eu gilydd am bethau eraill, y maent yn cytuno y'nghylch egwyddorion sylfaenol eu crefydd.

Dyna fel y mae pethau wedi bod, ac yn bod, i raddau pell, rhwng enwadau eraill ag Undodiaid y darn hwn. Ond y mae rheswm a chrefydd yn dyweyd mai nid fel hyn y dylent fod. Os yw yr Undodiaid yn credu fod yr enwadau eraill sydd o'u cwmpas yn gyfeiliornus yn eu barn, dylent wneyd eu goreu i'w hargyhoeddi; ac os yw yr enwadau eraill yn credu felly am yr Undodiaid, dylent hwythau wneyd yr un peth. Yr ydym yn gwybod fod llawer o feio ar Fethodistiaid y Sir hon gan Fethodistiaid o siroedd eraill na byddent yn ymdrechu mwy yn erbyn yr *heresy* sydd yn blino eu terfynau. Ac yr ydym yn clywed fod yr enwadau eraill yn cael eu beio yn gyffelyb. Yr ydym yn deall oddiwrth *Gofiant y Parch. J. Jones, Talsarn*, iddo ef fyned mor bell a dyweyd na ddylai yr un gwr dyeithr roddi ei gyhoeddiad trwy Sir Aberteifi nes iddynt yn gyntaf chwynu y Sosiniaid allan o honi. Ni ddymunem ddyweyd dim yn isel am "bregethwr y bobl," yn enwedig wedi iddo farw; ond braidd na themtir ni i ddyweyd am y geiriau uchod "llefarasai fel y llefarai un o'r ynfydion." Yr ydym yn addef fod gan y rhai sydd yn nesaf atynt fwy o fantais, ar ryw olwg, i'w chwynu o'r wlad; ond yr ydym yn gwadu mai ganddynt hwy y mae yr holl fantais a'r unig fantais i

† Yn ein sylw ar y llythyr hwn yn Rhifyn Medi gwnaethom gamsynied, ac y mae A. B. C. yn iawn. Cynwys y frawddeg hon, nid yn unig yr Undodiaid yn gyffredin, ond hefyd yr YMOFYNYDD, fel yn ddirmygus yn galw y Trefnyddion Calfinaidd yr "Hen Fethodistiaid." Mae hawl am hyny gan A. B. C. i geisio gan J. E. i enwi y mis a'r flwyddyn mae'r fath frawddeg i'w gweled yn yr YMOFYNYDD.—GOL.

wneyd. Onid yw gweinidogaeth deithiol fel sydd gan y Methodistiaid yn rhoddi y fantais i bawb wneyd hyn? Mae yr Undodiaid wedi bod yn ddigon caredig i gynyg eu pwlpudau lawer gwaith i rai fyddai yn barod i'w hesgyn. A chyda'r fath gyfleusderau oni allai gweinidogion o Dde a Gogledd roddi gorchymyn i drefnu eu cyhoeddiadau i fyned atynt, ei mwyn ceisio gwneyd yr hyn a dybiant y dylai ereill fod wedi ei wneyd, ond wedi ei esgeuluso. Ac er nad oes gweinidogaeth deithiol gan enwadau ereill, eto gallent hwythau drefnu rhyw fesurau er rhoddi help llaw, yn lle beio yn barhaus ar eu brodyr yn y sir hon. Ac efallai mai y rhai agosaf atynt sydd mewn mwyaf o anfantais i wneyd lles iddynt, ac felly mai ereill ddylai fod â'r llaw flaenaf yn hyn pe byddai rhaid iddynt ddanfon cenhadon i'w plith.

Ond i egluro pa fodd y mae pethau wedi bod. Os nad oes llawer o ymdrech yn cael ei wneyd tuag at gyfnewid y darn hwn yn y blynyddoedd diweddaf, y mae ymdrech wedi bod, a hyny gan gewri y Methodistiaid er ys dros haner canrif yn ol. Bu y Parchedigion Ebenezer Morris, Ebenezer Richards, Thos. Richards, a Williams, Lledrod, yn pregethu llawer ar hyd a lled y darn. Ac yr oeddynt yn arfer gwneyd hyny yn y lleoedd yr oedd yr Undodiaid gryfaf ynddynt ar y pryd, megys Ystrad, Llanwnen, Cwrtnewydd, Llwynrhydowen, ac ereill. Yr oeddynt yn arfer cynal rhyw fath o gymanfa yn Ystrad bob dydd Llun Pasg, am flynyddoedd; ac y mae rhai eto yn fyw sydd wedi bod yn gwrando Williams, Lledrod, ac Ebenezer Richard, gyda'u gilydd yno. Ac ereill wedi bod yn gwrando Thomas Richards yn Llwynrhydowen. Pan oedd yr enwad hwn yn ymsefydlu yn Ystrad, bu yr Eglwys Sefydledig yn gwneyd rhai ymdrechion canmoladwy yn eu herbyn. Anfonodd Dr. Burgess, esgob Tyddewi, Mr. Williams, yr hwn a ddaeth wedi hyny yn Archddiacon Ceredigion, yno i bregethu, a bu am amser maith yn traddodi pregethau, neu ryw fath o ddarlithiau er mwyn gwrthweithio dylanwad yr Undodiaid. A bu ereill yno hefyd gyda'r un amcan. Yr ydym ninau yn cofio pregethwyr o'r sir hon yn anfon eu cyhoeddiadau i Llanwnen, Cwrtnewydd, &c., er ys rhai blynyddoedd yn ol, ond ni wyddom beth fu y canlyniad. Mae hanesion cyffelyb hefyd am ymdrechion enwadau ereill. Felly, gellir gweled nad yw y sir hon yn hollol segur yn y mater hwn; ond gellir dywedyd fod ei chewri wedi bod am amser maith yn gwneyd eu goreu ar adegau er glanhau y tir, a chael dynion i gredu y wir athrawiaeth. Efallai mai y golled fwyaf gyda'r cewri hyn oedd iddynt esgeuluso codi capelau yno, fel y darfu iddynt wneyd yn mhen isaf y sir hon yn gyffredin, ac yn sir Benfro hefyd, ac y mae Methodistiaeth wedi ei cholli byth o'r wlad o'r herwydd, ond i raddau hynod o brin.

Wedi pob peth, yr ydym yn credu mai yn y Diwygiad mawr Methodistaidd y bu y golled fwyaf gyda'r darn yma. Nid ydym yn clywed i ddim ymdrech gael ei wneyd gan Rowlands a'i gyd-lafurwyr tuag at ei enill. Efallai iddynt arfaethu hyn, ond mai y gwirioned oedd, "Ni oddefai ysbryd yr Iesu iddynt" fyned i'r Bythynia yma ar y pryd; ni wyddom pa fodd i gyfrif am y peth os nid felly yr oedd, gan fod y darn mor agos i aelwyd y tân, a'i fod yntau yn cerdded mor chwyrn, a'i ddylanwad mor gyffredinol. Ond rhywfodd, rhedodd afonydd y diwygiad heibio y darn hynod hwn, a'r tân nerthol oedd yn goddeithio yn mhob cyfeiriad, ni effeithiodd gymmaint ag i ddeifio dim ar dyfiant y lle hwn, hyd ag y gwyddom ni, ond safodd yn *waterproof* ac yn *fireproof* yn nghanol y cwbl oll.

J. E.

DARN UNDODAIDD SIR ABERTEIFI.

Mr. Golygydd,

Nid wyf hyd yn hyn wedi gweled llythyr dyddorol J. E. yn y *Cylchgrawn*, at yr hwn y mae A. B. C., yn yr Ymofynydd diweddaf, yr galw eich sylw chwi yn gystal â sylw'r *Cardies* Undodaidd yn gyffredinol; ond tebyg y deuaf o hyd iddo cyn bo hir. Yn y cyfamser dymunwyf gyflwyno fy niolch mwyaf calonog i J. E. am bob teimlad caredig a fynwesa at Sir Aberteifi, ac am bob dymuniad ac

ymdrech o'i du i ddiogelu ei hiechyd, ac ychwanegu ei phrydferthwch i'r graddau pellaf. Dywed, mae'n debyg, mai *tumour peryglus ar wyneb glandeg Sir Aberteifi yw Undodiaeth.* Meddylia, wrth gwrs, pe y gellid cael gwared o'r *tumour* hwn, sef Undodiaeth, y byddai tegwch gwyneb Ceredigion gymmaint a hyny yn fwy. Yr oeddwn inau bob amser o'r farn, ond wfft mor gamsyniol, mai *beauty spots* ar lanau Ayron a Theifi, oedd yr hyn y mae J. E. yn alw yn *tumours aflunaidd* a pheryglus. Os yw J. E. yn barnu yn gywir, gobeithio nad yw'r *tumour* yn anobeithiol beryglus, ac y gellir ei symud ymaith ond myned dan *operation.* A fydd J. E. mor garedig â *recommendo* rhyw lawfeddyg cywrain a llwyddianus gydâ'i gyllell, y fath ag y gall Sir Aberteifi, yn ddibryder, ymddiried ei gwyneb glandeg iddo? Neu, gan y golyga fod Undodiaeth yn fath o haint ysbrydol ar amryw o feibion a merched, henafgwyr a henafwragedd Sir Aberteifi, ac o ganlyniad yn peri blinder iddo, a wyr J. E. am unrhyw feddyginiaeth a fyddai yn debyg o fod yn effeithiol i adferu iechyd? Nid gwiw iddo ef na neb arall *bresgribo* allan o'r Beibl, oblegid nid oes yno, credaf, ond *maeth* i Undodiaeth. Yr *oedd* un adnod fechan yn y bummed bennod o Epistol cyntaf Ioan, rhwng y chwechfed a'r wythfed, yr hon, ar yr olwg gyntaf, ac yn ol barn wirioneddol llawer, oedd yn cynwys gwenwyn marwol i Undodiaeth ond y mae ein cyfeillion, y Bedyddwyr, ac eraill, wedi taflu hon allan er ys llawer blwyddyn fel na fyddai ond gwaith ofer i *labelo* yr adnod yma fel meddyginiaeth. Hwyrach mai math o *Rinderpest* dinystriol yw Undodiaeth, yn ol barn J. E., yn gweithio marwolaeth sicr yn mhob cyfeiriad y mae'n myned, a'i fod mewn ofn mawr y goddiweddir y Methodistiaid gan yr haint. Y gwir yw, mae rhai o honynt yn dioddef eisioes oddiwrtho. Nid wyf yn ei feio ond yn ei ganmol am ei bryder cydwybodol.

Pan y pregethwyd Undodiaeth gyntaf yn Sir Aberteifi gwnawd ymdrechiadau lawer i rwystro ei lledaeniad: safai cewri Trindodiaeth dan lawn arfau yn y pyrth, ond yn ofer; ar ganol y gwasanaeth criid *actionau* gan amddiffynwyr y ffydd iawngred; a lluchient geryg, fel y clywais, at y pregethwr. Ond lledu o hyd wnaeth yr haint, a tyfu yn fwy fwy wnaeth y *tumour.* Flynyddau yn ol, gwnawd cynyg i lanhau cymydogaeth ar lan Ayron trwy ymddifadu yr Undodiaid, mewn dull, o'u ty addoliad, a gwrthod tir iddynt i adeiladu un arall. Pa gynyg eto a garai J. E. weled yn cael ei wneud? Y mae genyf fi ryw ychydig awdurdod ar ddau bwlpid Undodaidd, ac os yw J. E. yn bregethwr, ac yn cwyllysio hyny, caiff ef neu ryw un arall eu benthyg, am rai gweithiau, i bregethu Methodistiaeth er mwyn argyhoeddi'r Undodiaid, os gall, ar yr amod i minau neu ryw un arall gael benthyg dau o bwlpidau y Methodistiaid i bregethu Undodiaeth ynddynt. Yr wyf yn credu y gwna eraill o'm brodyr Undodaidd yr un peth. Os ydym yn cyfeiliornu, carem gael ein dychwelyd i'r iawn ffydd; ac ni fyddai o un niwed i'r Methodistiaid a Thrindodiaid eraill, weithiau, i feddwl y *gallant* hwythau fod yn gamsyniol. Fel y canlyn y canodd yr hen Iolo:—

"Dymma'r ffordd, medd un, i'r bywyd,
Ammau'n gadarn fydd y llall;

Ag er chwilio'n daer a diwyd,
Syrthiwn bawb i lawer gwall !
Tad y Nef ! dod gariad rhyngom,
Lle mae'n hymrysonau'n faith ;
Awn, beth bynnag a ddel arnom,
Felly'n iach i benn y daith."

THOMAS THOMAS.

Medi 6fed, 1871. *Capelygroes a Phantydefaid.*

Mr. Golygydd,

Wele fi yn danfon i chwi ychydig o ofynion ac atebion† ar Ioan i. 1--14, os y gwelwch hwynt yn addas i'w cyhoeddi. Pa un a ydynt ai peidio, gallaf ddywedyd hyn, sef mai wrth fyfyrio uwchben yr adnodau hyny y cefais arweiniad i'r ffordd Undodol, ac yr wyf yn diolch i Dduw am dani, er nad oes genyf yma nemawr yn cyd-drafaelu a mi ar hyd-ddi. Credaf er hyny ei bod yn arwain i'r byd na fydd ynddo neb egwyddorion ond y sawl a fyddant yn gysson â'r rhai Undodol, er y gellir meddwl wrth edrych ar y ffordd Drindodol yma, y bydd pawb yn y byd hwnnw yn Drindodiaid.

Am danaf fy hun, nis gallaf gredu fod addoli Tri yn Un yn addoliad i'r gwir Dduw o gwbl, am ei fod ef o angenrheidrwydd yn Fod Hollalluog. Ond am y Tri yn Un, rhaid mai galluogion yw y personau, ac nis gall tri, nac unrhyw rhif, o alluogion wneuthur un Bod Hollalluog—nis gall nifer o feidrolion wneud un Anfeidrol. Mae yn canlyn am hyny nad yw addoliad Trindodwyr yn addoliad i'r gwir Dduw, am nad mai Bod Hollalluog yw ei wrthrych.

O herwydd nad wyf yn ymuno â hwynt yn awr, rhodda llawer i mi yr enw pagan, pe bawn waeth o hyny. Yn wir, mae'r enw yn well genyf na'r un Trindodol, am fod rhyw fath o esgus gan bagan dros yr enw. Ni fedd efe well manteision, ond am Drindodwyr, mae wedi myned yn ormod o'r dydd i allu rhoddi esgus dros eu henw hwy.

Yn wir, mae hiraeth yn fy nghalon am gynulliad o addolwyr y gwir Dduw trwy Iesu Grist ; ond os na allaf ei gael yn y byd hwn, yr wyf yn penderfynu ymdrechu ei gael yn y byd arall, ac ni fydd hyny yn hir. Nid oes arnaf y gradd leiaf o hiraeth i ymuno â Thrindodwyr. Llawenhau wyf, er bron yn unig, yn y Bod Mawr sydd genyf i'w addoli—yr Hollalluog. Efe yn unig sydd Dduw. I'w enw mawr y byddo pob clod a pharch yn oes oesoedd !

Ydwyf yr eiddoch,

Machynlleth, 20 *Awst*, 1872. JOHN ROWLANDS.

HYNAFIAETH.

Castell Dunraven, Tach. 6ed, 1813.

Anwyl Tally,

Yma yr wyf fi wedi bod ys amryw ddiwrnodau, Mrs. Wyndham wedi danfon am danaf i fod yn bresenol yn agoriad hen amgaer ac amglawdd yr hwn sydd yn uchel a syth iawn yn yr olwg allanol. Mae'r sylfaen dros o leiaf dair rhan o bedair o'r uchder yn gynwysedig o geryg a chlai wedi eu hyrddio y'nghyd. Mae'r top yn gynwysedig o geryg a

† Cant ymddangos cynted ag y gallom gael gofod.

morter, nid wedi eu ffurfio yn fur, ond yn unig wedi eu crygio ar eu gilydd fel y clai a'r ceryg yn y parthau isaf. Mae'r morter wedi ei wneud yn dda o galch *lias* a thywod y mor. Mae mor galed y'mron, os nid yn hollol, â'r gareg ei hun, yr hyn sy'n dra rhyfeddol pan ystyriom nad yw, yn ddigon tebyg, yn llai na dwy fil oed. *Dindryvan* (heddyw *Dunraven*) oedd trigfan yr hen *Garactacus*, neu Caradoc Ap Bran, yr hwn, yn ben ar ei filwyr Essyllawg (*Silurian*), a wrthsafodd yn llwyddianus am naw mlynedd holl bwerau Rhufain, ac a'u maeddodd mewn mwy na 70 o frwydrau . . .

Yr wyf yn credu fod Dunraven yn drigfan gydâ'r hynaf, o amseriad sefydledig *(ascertained date)*, yn yr ynys hon. Fe'i crybwyllir mewn hanesiaeth, fel un o drigfanau neu gestyll tywysogion Cymru, trwy'r holl oesoedd, o Caractacus i lawr hyd Iestyn ap Gwrgan, pan y daeth yn eiddo (trwy ladrad breninol) Syr William de Londres, yr hwn a'i rhoddes i Arnold Butler. Oddiwrth y Butleriaid, daeth trwy briodas i'r Vaughaniaid, ac oddiwrthynt hwy hefyd trwy briodas etifeddes i Wyndham, y teulu presenol. Mae yn beth nodedig i Bran, tad Caractacus, yr hwn hefyd fu'n byw yma, roddi tir i adeiladu eglwys (Llan) i Ilid Sant, fel ei gelwid, ac i'r eglwys honno gael ei rhoddi i blwyf Llanilid, ac i fod Llanilid wedi parhau hyd yn nod y dydd hwn yn rhan o Stâd *Dindryvan* neu Dunraven, am 1800 o flynyddau. Gallwn yn rhesymol gasglu i *Bran Fendigaid*, pan yn rhoddi fyny swydd y llywodraeth i'w fab *Caractacus*, fyned i fyw gyda *Ilid Sant*, yr hwn a ddygodd gydag ef yma o Rhufain, ac mai y ty a elwir fyth *Trefrân*, ger eglwys Llanilid, oedd ei drigfan yn ei ddyddiau diweddaf." . . . . . IOLO MORGANWG.

Mewn llythyr a ysgrifenwyd oddeutu yr un amser dyweda yr hen hynafiaethydd, "Mi a baratoaf i chwi hanes Tywysogion Deheubarth Cymru, a Thywysogion Morganwg, o *Bran ap Llur*, yr hwn a ddygodd y Grefydd Grist'nogol gyntaf i Brydain, i lawr hyd Jasper, Duc *Bedford*. Morganwg oedd y lle cyntaf y gosododd Crist'nogaeth ei throed arno ar dir Brydeinig."

Waring's Collections and Anecdotes of Edward Williams, tud. 174—176.

"Ond pa fodd bynag," medd Carnhuanawc, "y penderfynir y ddadl hon (dyfodiad yr Efengyl), y mae yn amlwg oddiwrth amrywiol ysgrifau, i wybodaeth o'r Efengyl gael ei dwyn i Brydain yn gynnar iawn. Yn mha gwrr o'r ynys y tewynnodd ei llewyrch gyntaf, ni wyddys; eithr os gyda theulu Caradawc y daeth hi yma, nid anhebygol yw, mai yn rhyw ran o Essyllwg y gwnaethpwyd y sefydliad Cristionogol cyntaf. Canys y mae yn dra rhesymol i feddwl y buasai y dychweledigion o Rufain ddyfod i blith eu hen gyfeillion a'u perthynasau, ac i wlad eu genedigaeth. Ac os cywir yr hyn a honnir yn nghylch hynafiaeth *Caerworgorn*, nid annhebygol, mai yn nghymmydogaeth y lle hwnnw, y ffurfiwyd y gynnulleidfa Frytanaidd gyntaf yn yr ynys hon. Pa sawl o deulu Brân a oeddynt wedi derbyn y ffydd, ni wyddys, na pha sawl a ddychwelasant i Brydain. Am Caradawc ei hun, nid oes mynegiad am dano ar ol ei ymddangosiad ger bron Claudius. Ysgatfydd ei fod gwedi marw cyn iddei dad gael rhyddhad o Rufain." *Hanes Cymru*, tud. 163.

Yn ol Trioedd ac Achau y Saint (tud. 160), bu Bran ap Llur saith mlynedd yn Rhufain y'ngwystl ei fab, Caradoc. Meddylir iddo ddwyn yr Efengyl gydag ef ar ei ddychweliad adref. Yn ol Iolo yn y llythyr uchod, treuliodd weddill ei ddyddiau yn Llanilid.—GOL.

DARGANFYDDIAD DYDDOROL YN BELGIUM.—Yn nghwmwd Hardthausen, oddeutu tair milldir o Hagenau, agorwyd yn ddiweddar feddrodau tra

dyddorol a feddylid eu bod yn rai Celtaidd. Yn eu plith mae un yn cynwys, yn ddigon tebyg, weddillion pendefig. Yr oedd y pen yn gorphwys ar bilw o risgl, a'r fynwes a'r ysgwyddau wedi eu gwasgu gan yr estyll o amgylch yr esgyrnlwm ag oedd yn dra addurnedig. O amgylch y gwddf a'r breichiau yr oedd tyrch, a modrwyau yn amgylchynu esgyrn y bysedd. Yr oedd tyrchau hefyd am y morddwydydd a'r coesau, a llawer o binnau oddeutu y pen y rhai oeddynt wedi bod yn addurniadau i'r gwallt. Ar y fynwes yr oedd plat hirgrwn (*oval*) o gopr, ar yr hwn yr oedd amryw gnau mewn cadwraeth ragorol, ac yr oedd dwy wedi eu gwasgu i mewn rhwng y dannedd. Mae hwn yn gaffaeliad dyddorol anghyffredin, ac yn un o nodwedd hollol newydd yn Ewrop, yn tebygu i ryw raddau i'r dull o gladdu y'mhlith llwythau cynfrodorol America, y rhai a ofalant i gladdu ymborth gyda'r marw.

EIN HYSGOLION SABBOTHOL.

Mr. Golygydd,

Teimlaf yn ddiolchgar iawn i chwi os gwnewch le i'r canlynol yn y rhifyn nesaf o'r YMOFYNYDD. Mae y daflen i gael ei deall fel y canlyn. (1) yn dangos rhif y gwrywod; (2) rhif y menywod; (3) cyfanswm rhif yr ysgolheigion; (4) y cyfartaledd am y boreu; (5) y cyfartaledd am y prydnawn; (6) rhif yr athrawon; (7) rhif yr athrawesau; (8) cyfartaledd yr athrawon a'r athrawesau am y boreu; (9) cyfartaledd yr athrawon a'r athrawesau am y prydnawn; (10) rhif yr ysgolheigion dros 15 oed; (11) cyflwr presenol yr ysgol mewn cymhariaeth i'r hyn oedd y llynedd.

G. EVANS.

YSGOLION.	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11
Aberdâr, Hen Dy Cwrdd	45	24	69		64	6	2		4	32	yn fwy.
Alltyplacca	19	15	34			4	4	4	5	8	yr un.
Capel-y-Bryn	28	23	51	36	22	4	2	4	3	29	yn well.
Capel-y-Fadfa	33	27	60	52	52	6	1	5	5		yn well.
Caeronen	53	49	102	75	75	6	4	9	9	57	yn well.
Cribin	40	20	60	30	30	4	2	4	2	40	yn well.
Cwmbach (Aberdâr) ...	24	28	52		34	4	2		5	8	yr un.
Llwynrhydowen ...	18	22	40	35	35	7		5	5		yr un.
Llandyssul	*No return.*										
Merthyr Tydfil, Twyn-y-rodyn	*No return.*										
Pantydefaid	35	40	75	50	47	6	2	8	8	45	addawol
Rhydygwin	20	19	39	30	31	4	1	3	4	22	yn well.
Swansea (Abertawe) ...	*School discontinued.*										

HEN LYTHYRAU O GYMRU.

LLYTHYR XI.

[At Mary Powell, Pencader, America.]

Bargod, Awst. 5, 1726.

Anwyl Chwaer.—Yr wyf yn dechreu ysgrifenu atoch unwaith eto. Yr oeddech yn arfer canmol fy llythyrau a dyweyd eich bod yn cael llawer

o bleser wrth eu darllen; ond yr wyf yn gwybod na chewch bleser wrth ddarllen hwn; ac na fu fy nghalon erioed mor drwm wrth ysgrifenu atoch o'r blaen. Yr wyf yn gwybod i Siencin fy mrawd ysgrifenu at Thomas tua chwech wythnos yn ol, i hysbysu fod fy nhad yn sal, ac yn myned wanach wanach; ac wedi hyn y mae ef wedi cefnu ar ein byd ni, a'n gadael ninau ar ol. Er ei fod yn analluog i wneyd dim er ys misoedd, yr oedd gyda ni yn gwmni gwerthfawr, ac yn trefnu pob peth mor ddoeth ag erioed, hyd yr wythnos olaf. Yr oedd ef yn myned yn raddol er ys pedwar mis. Gwnaeth Dr. Williams ei oreu iddo, ond yr oedd ei amser wedi dyfod i fyny, ac nid oedd gwahaniaeth beth wnelai neb. Yr oedd yn hynod o dawel yn ei gystudd, ac yn siarad llawer am fater eu heneidiau a'r dynion oedd yn dod i'w weled, a gwnaeth les mawr i rai o honynt. Yr oedd Beni'r Alltgoch yn llefain fel plentyn pan oedd nhad yn siarad ag ef. Aeth yn ol i Bantycreuddin yn mhen wythnos, a chafodd ei dderbyn yno y cymundeb diweddaf. Addawodd Twm Penddol wrtho y buasai yn rhoi y ddiod heibio, ac yn byw yn sobr; ond yr wyf yn ofni Twm, oblegid ei fod wedi ymollwng yn llwyr dan lywodraeth ei flys. Yr oedd Mr. Lewis yn hoff iawn o ddod i weled nhad, ag yr oedd yn dyweyd nad oedd yn nabod neb oedd yn byw mor agos at yr Arglwydd, ac yn mwynhau cymmaint o'r nefoedd ar y ddaear. Clywais ef yn gweddio yn ddystaw ddegau o weithiau yr wythnos olaf o'i fywyd. Yr wyf yn meddwl ei fod yn gweddio bron o hyd pan fyddai ar ddihun. Bu Lewis Jones heibio yma tua mis cyn i nhad farw, a phregethodd yn ein ty ni yn nghylch y Wlad Well, sef un Nefol; ac fe effeithiodd ei bregeth yn annghyffredin ar feddwl nhad. Byddai yn son am dani lawer gwaith y dydd a dyddiau ar ol hyny. Bu Enoch Francis yma ddeg diwrnod cyn i nhad farw. Gofynodd iddo, "'Ple'r ydych yn cael eich hunan o ran eich profiad y dyddiau hyn, Morgan?" Atebodd yntau, "Yn ngolwg y Wlad Well." "Ydych chwi yn *tybio* eich bod yn myned i'r Wlad Well?" "Nac wyf, ddim yn *tybio* hyny, yr wyf yn *gwybod* hyny." "Ar bwy gyfrif yr ydych chwi yn meddwl cael eich derbyn yno?" "Yn rhad trwy ei ras ef, trwy y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu." "Oes dim yn gofidio eich meddwl yn eich cystudd?" "Oes." "Beth sydd?" "Arminiaeth Abel eich cefnder a Jenkin Jones, Pantydefaid." "Y mae hyny yn gofidio llawer arnaf finau hefyd, Morgan," meddai Francis. "Chwi gewch chwi weled, Mr. Francis bach, y gwnant hwy ddrwg mawr i achos Duw yn Nghymru," meddai nhad wrtho. Tri diwrnod cyn iddo farw, dywedodd wrth Mr. Lewis y gweinidog, ei fod yn ddiolchgar iawn iddo am sefyll mor gadarn yn erbyn Jenkin Jones a'i gyfeiliornadau. Dywedodd yn mhellach ei fod yn gwybod mai pendraw yr athrawiaethau hyny fyddai arwain dynion i wadu aberth yr Iachawdwr, a haeddiant ei waed, a myned yn Sosiniaid hollol. "Pwy bynag fo byw can mlynedd i 'nawr, meddai, "cant weled y Sir hon yn frith o Sosiniaid. Yr wyf yn gweled wyau Sosiniaeth yn cael eu dodwy yma bob dydd. Yr wyf yn gwybod beth gostiodd achos Iesu Grist i'r hen frodyr sydd wedi myned adref, fel nas gallaf lai na theimlo yn ddrwg wrth weled y baedd o'r coed yn dod i mewn i durio y winllan. Yr oeddwn i yn arfer myned i ogof Cwmhwplyn i wrando Stephen Hughes yn 1670, pan oeddwn yn ddeuddeg oed, a phan oeddwn yn un-ar-bymtheg yn gwrando arno yn pregethu oddiwrth y geiriau 'Cyfraith yr Arglwydd sydd berffaith, yn troi yr enaid;' fe aeth y saeth i'm calon, ac mi deimlais gyfraith yr Arglwydd yn troi fy enaid inau. Ie, ie, yn ogof Cwmhwplyn y cefais i fy nerbyn i'r eglwys gan yr hen Dad Hughes, ddeuddeng mlynedd a deugain i'r haf hwn. Yr wyf yn cofio llawer o bregethau Hughes. Yr oedd mel efengyl ar ei dafod ef bob amser. Y mae'r holl llyfrau da breintiodd ef genyf fi yn y ty yn awr. Y mae'r Arglwydd wedi bod yn dda iawn wrth ei bobl trwy Evans y Tutor, a chwithau Mr. Lewis, ar ol dydd Mr.

Hughes. Y mae Duw ogof Cwmhwplyn wedi bod yn amlwg iawn gyda ni trwy y blynyddau. Mi gofiaf byth am gynghorion, gweddiau a dagrau yr hen William, Llynddwr, ar ol iddo gael ei garcharu yn *jail* Caerfyrddin am addoli Duw. Gwnaethant les mawr i fy nghrefydd i. Mae'n rhy ddrwg fod gwenwyn Pantydefaid yn dod i mewn i lygru ieuenctyd gwamal nad ydynt yn gwybod dim am dywydd yr hen dadau. Ond byddaf fi wedi myned o swn y rhyfel yn fuan. Da genym fod fy nhri phlentyn gyda'r achos da. Yr wyf yn dymuno arnoch, Mr. Lewis, i anfon llythyr at Mary i America, i'w hanog i barhau yn ffyddlon gyda chrefydd, a dywedwch fy mod yn dymuno arni fy nghwrdd yn y nefoedd—hi a'i theulu. Rhoddwch dro yn aml am yr hen wraig yma, Mr. Lewis, hi fydd yn unig iawn ar ol i fi ymadael. Nid oes arnaf ddim gofid yn fy nghylch fy hun. Yr wyf fi yn ddiogel.

Yn wir, yn wir, medd gwir ei hun,
Pob cyfryw ddyn sy'n gwrando
Fy ngair, gan gredu'r Tad am rhoes,
Mae didranc einioes ganddo ;
A'r sawl sy'n byw mewn ufydd gred
I mi gaiff drwydded nefol,
Nas gallo'r angeu, brenin braw,
Ddrwg iddaw yn dragwyddol."

Yr oedd Mr. Lewis ac yntau yn colli dagrau wrth ffarwelio a'u gilydd. Tranoeth yr oedd yn llawer gwanach, a dywedodd wrth mam : "Yr wyf bron myned, Becca fach. Byddwch mor dawel ag y medroch ar fy ol, oblegid fe fydd marw yn elw i fi. Llafuriwch chwithau am fod yn barod. Peidiwch a gadael i ofidiau y byd flino gormod arnoch. Ymdrechwch fod bob amser yn dawel, ac yn barod i farw. Yr wyf yn gobeithio y bydd i Anna a chwithau gyd-dynu yn dda ar ol i mi fyned." Y noswaith cyn iddo farw yr oeddwn i a Matti fy chwaer-y'nghyfraith, a Beni'r Alltgoch, a William Bwlchgwyn, yn ei wylio, a thuag un o'r gloch y boreu, ni glywem ganu gwan peraidd am ddwy neu dair mynyd o amser, rywle gerllaw i ni, ond nis gallem ddweyd pa le'r oedd, na phwy oedd yn canu, ond yr oedd yn swnio yn hyfryd iawn. Y mae Beni'r Alltgoch yn credu taw angylion oedd yn canu, ac y mae wedi dweyd hyny wrth lawer. Tranoeth yr oedd yn gwanhau yn raddol hyd tua dau o'r gloch, pan ddywedodd wrthyf: "Mae'n dywyll iawn!" "Ydyw hi nhad?" meddwn inau. "Ydyw merch i," meddai yntau, "ond dyma'r goleu yn dod! Dyna'r Iesu'n dod! O Iesu anwyl!" Dyna y gair olaf ddywedodd, ac yr oedd wedi tynu yr anadl olaf cyn pen mynyd. Bu farw y dydd cyntaf o fis Awst, a chladdwyd ef ar y trydydd. Yr oedd yma angladd lluosog annghyffredin, a phawb yn teimlo yn alarus ar ei ol, ac yn rhoddi gair da iddo. Yr oeddem wedi parotoi digon o fwyd a chacenau a gwin ebilon ar gyfer pawb, ac y mae'r holl gymydogaeth yn ein canmol am barotoi pob peth mor anrhydeddus. Pregethodd Mr. Lewis yn yr angladd yn doddedig iawn oddiwrth y geiriau : "Mi a ymdrechais ymdrech deg, mi a orphenais fy nghyrfa, mi a gedwais y ffydd." Dywedodd ei fod wedi colli Aaron oedd yn arfer dal ei ddeheulaw i fyny. Adroddodd am dywydd yr hen dadau yn amser yr erledigaeth, a bod fy nhad yn un o grefyddwyr dyddiau yr erledigaeth, a choffhaodd am ei ffyddlondeb fel Cristion, a'i dystiolaeth ei fod yn myned i'r nefoedd, nes oedd pawb yn colli y dagrau. Yr oedd Jenkin Jones yn wylo yn hidl, er ei fod yn gwybod fod nhad yn groes iawn iddo ef.

Yr oedd Mr. Lewis wedi gwneyd ei cwyllys, a bu yma yn ei darllen prydnawn yr angladd. Yr oedd wedi trefnu y cyfan i mam tra fo hi byw, ac ar ol dydd mam, fod Siencin yn cael ugain punt, chwithau ddwy bunt ar hugain, a'r gweddill i finau. Nis gwn beth ddaw o mam. Y mae hi'n

cymeryd marwolaeth nhad at ei mheddwl yn rhyfedd o drwm. Os na ddaw hi'n well bydd yn eithaf anghysurus i fi geisio byw gyda hi; ond yr wyf yn ceisio cofio cynghorion nhad, ac yn ceisio gweddio am gymhorth, gan obeithio y daw mam yn fwy tawel bob yn dipyn.

Nid oes yma un newydd neillduol yn awr, ond fod Jenkin Jones wedi codi ty cwrdd newydd ar ei dir ei hunan o'r enw Llwynrhydowen, ac wedi sefydlu eglwys yno, a chael ei ordeinio yn weinidog arni. Pallodd Mr. Lewis fyned i'w ordeinio, a pallodd ereill yr un modd; ond fe aeth rhai, ac y mae hyny wedi achosi ychydig o deimlad annymunol rhwng y gweinidogion a'u gilydd. Cofiwch anfon yn ol yn fuan, a gwnewch eich goreu yn eich llythyr i gysuro mam. Gobeithio eich bod i gyd yn iach. Hyn yn fyr oddiwrth eich chwaer alarus,

ANNA BEYNON.

Y DIWEDDAR MR. DANIEL THOMAS, DINAS.

(Parhâd o tud. 213.)

Dinas Colliery,
Ebrill 10*fed*, 1860.

Barchus Syr,

Y dyddordeb a deimlwyf yn llesiant yr ardal, y dyb ddiysgog sydd genyf am werthfawrogrwydd ei thrysorau cuddiedig, y'nghyd a'r awydd a deimlwyf i lesoli Mr. Coffin y'nglyn a'm presenol feistr, a'm cymhellodd i osod ar bapur y gwirioneddau a'r sylwadau canlynol o berthynas i waith yr ardal a'i gyssylltiadau, yr hyn gobeithiaf gaiff eu ystyried yn ddigonol esgusodion am ysgrifenu a chyfeirio y llythyr hwn atoch.

Mae'r wythien lo *No.* 3 y'mron cael ei gweithio allan o dir y Ddinas; a'r ychydig lo sydd ar ol o honi, a geir mor drafferthus i'w weithio, fel na ellir gwneuthur hyny gydag elw i'w meddianwyr, yn ol pris y cyfryw lo ym Mhorthladd Caerdydd ar hyn o bryd; nac unrhyw bris caffaeledig am y fath lo debygid dros flynyddau lawer i ddyfod.

Mae'r rhan fwyaf o weddill y *No.* 3 dan dir Twyn-yr-hyfen, y'nghau oddiwrthym gan *fault* neu *faults*, a ymddengys fod wedi tafluʼr cwbl i fyny, ugeiniau o latheni'n uwch na'n presenol agoriadau arni.

Nid oes glo i'w gael o *quality*'r *No.* 3 yn gyfagos i waith y Ddinas, ac yn weithadwy o hono, nad yw wedi cael ei gymeryd gan eraill, sydd wedi, neu a fwriadant sefydlu gweithfaoedd rhy bellenig i'r Ddinas fod yn drigfan i'w thrigolion.

Yr hyn sydd ar ol o'r *No.* 2 dan y Ddinas; gan y byddai raid ei drosglwyddo dan y ddaear am ffordd hirfaith, ac yna ei godi o bwll pedwar-ugain llath o ddyfnder; codi hefyd y dwfr a gyfarfuwyd ag ef tra yn gweithio amrai gannoedd o erwi o lo yn ystod yr amser a aeth heibio; gyda'r hyn fyddai raid ei ollwng i'r pwll yn feunyddiol o'r wyneb er gorbwyso'r glo a weithid i fyny; ac nad yw ansawdd y *No.* 2 y fath y'ngolwg prynwyr glo, ag y gellid cael gwerth ar lawer o hono; a'r ychydig a werthid, ni chyrhaeddai ond pris llawer llai na'r draul gydfynedol a'i ddwyn i'r farchnad.

Nis gallaf lai, y'ngwyneb y gwirioneddau a'r ystyriaethau uchod, na rhagweled fod trigolion y Ddinas yn rhwym cyn pen hir amser o ymadael a'r lle; y bydd i fasnachwyr gael eu colledu'n ddirfawr trwy hyny; a rhai ond odid, mewn ystyr fasnachol, gael eu dystrywio: perchenogion tai i gael colli mewn gwerth yr hyn oeddynt trwy ddiwydrwydd a chynildeb wedi eu rhagbarotoi, er cysur iddynt eu hunain yn amser henaint ac analluogrwydd corphorol; mae ar hyn o bryd ddeuddeg-ar-hugain o anedd-dai segur ar y Ddinas a Gwaunadda'n unig; a mwy o anedd-dai gweigion sydd, wrth bob ymddangosiad, ar fyr i gael eu gadael yma eto: ein Hysgol Frytanaidd, wedi'r holl ymdrech a wnawd tuag at ei chael, pan y mae ar fin cael ei chwbl sefydlu, ac yn dechreu bod o fudd i'r gym'dogaeth, sydd debyg o ddyfod yn ddiwerth.

Nid ydyw'r cyfryw sefyllfa ar y lle o un budd i neb; nac yn tueddu er lles person, na phersonau, sydd yn dal perthynas ag ef; eto mae dihoendra fel hyn yn arwain yn anocheladwy i'r canlyniadau a nodwyd; ac oni wneir rhyw ymdrech amgenach i ddim sydd ar droed yn awr, bydd y Ddinas cyn hir yn gymharol anghyfanedd; oblegid lle a godwyd er mwyn y gwaith glo ydyw, ac ymddibyna trigolion y gym'dogaeth hon, am eu bywioliaeth hyd yn bresenol, y'mron yn gyfangwbl arno.

Yr unig foddion allaf ei weled tuag at adfywio masnach y lle am hir amser i ddyfod, fyddai agor y *Steam Coal.* Dyma gae o lo gwerth agor iddo; nis gall fod yn llai o werth dan y Ddinas a Gwaunadda'n unig, am y tair prif wythien na £90,000 yn ol yr arlwydd-dal isel o 6s. y dunell, a gadael pedwar-ugain-a-thair-ar-ddeg o erwi o dir am bob gwythien allan o'r cyfrifiad, i fod dan *faults,* a'u canlyniadau difrodus; gan hyderu na chaf fy ystyried fel yn hyfforddi, eto byddai'n dda genyf pe gallwn argymhell y Meistriaid Coffin a Hunt (gyda gwylder y dymunem ddywedyd hyn) i ddyfod i gytundeb rhesymol a'u gilydd i'w brofi; ac yna ei weithio; a chan gredu'n benderfynol y byddai i'r cyfryw anturiaeth droi allan er elw i'r boneddigion, y'nghyd a bod o les mawr mewn amser dyfodol i drigolion y lle hwn, y gym'dogaeth, a'r ardaloedd cyfagos,

Y gorphwys, Barchus Syr,

Eich ufydd a gostyngedig was,

DANIEL THOMAS.

WALTER COFFIN, YSW.,
Promenade, Cheltenham.

Y'mhen tua thair wythnos wedi hyn cafwyd achlysur, trwy gais Mr. Hunt (y prydhynol feistr), i egluro'r peth y'mhellach fel y canlyn:—

Dinas Colliery,

Ebrill 30ain, 1860.

Syr,

Crefaf gyfeirio'r atebion canlynol i'r gofyniadau a welsoch yn dda eu hanfon ataf y ddoe, ac ar ba rai y dywedwch fod Mr. Hunt yn awyddus am gael fy ngolygiadau'n ysgrifenedig.

Ar y tebygolrwydd fod *Steam Coal* i gael; y draul, y'nghyd a'r modd i chwilio am dano.

Y draul i agor at y glo ar dir Twyn-yr-hyfen drwy'r *fault* i'r 200 erw tu draw. A'r tebygolrwydd fod glo i'w gael yno.

O berthynas i'r tebygolrwydd fod *Steam Coal* i gael. Caf sylwi'n gyntaf, Fod y gwythi glo a adnabyddir wrth yr enw *Steam Coal* profedig yn ngogledd barthau *Basin* mawr deheubarth Cymru yn bedair, ac yn gaffaeledig tu fewn i'r dyfnder unionsyth, o gan llath oddiwrth yr uchaf o honynt; sef y Pedair uchaf; y Chwech troedfedd; y Naw troedfedd; a'r Pedair isaf.

Mae'r tir glo a gwythi glo'r Ddinas yn cyfateb mewn amryw fanylion, ac yn neillduol y *gwythi glo* sydd wedi cael eu rhenol weithio allan, a'u darganfod; o ba rai y gellir enwi'r Ddinas *No.* 3; a'r wythien a elwir Glo Aberorchwy, i'r hyn a brofwyd mewn manau eraill ar y *Steam Coal* yn y llefydd mae ef yn cael ei weithio.

Gellir dilyn y wythien lo *No.* 3, y'nghyd a'r Aberorchwy, i wared ar hyd gwm y Rhondda, o Gwmsaebren y pen uchaf i'r cwm, heibio Ynysfaio a'r Tylacoch (tiroedd y gweithir y *Steam Coal* danynt), at Bodryngallt; ac oddiyno i'r Ddinas.

Ceir gwythien o lo, dwy a deg i lathen o drwch, yn gyffredin tu fewn i ugain neu ddeg-ar-ugain o latheni ar war y pedwar uchaf: profwyd gwythien dwy a deg o drwch ar waelod Pwll bach y Ddinas y'mhen tri chant o latheni o'r wyneb. Profwyd yn y pwll hwn yn unig, y Ddinas *No.* 3 y'mhen deugain llath; Aberorchwy y'mhen 140 o latheni o'r wyneb; a dwy wythien arall, dwy a deg yr un, yn yr wyth-ugain llath odditan Aberorchwy.

Y casgliad a ymddengys yn naturiol i'w wneuthur oddiwrth y gwirioneddau uchod yw, fod y gwythi a elwir *Steam Coal* i'w cael yn y Ddinas ond *sinko'n* ddyfnach am danynt; ac y'mhellach, gan nad all fod un amheuaeth o berthynas i unoliaeth gwythi'r Ddinas, a'r rhai sydd ar war y *Steam Coal* yn y llefydd a enwyd, a manau eraill, lle mae *Steam Coal* wedi cael ei ddarganfod; ac fod y rhai sydd yma yn llawn cystal, ac mor drwchus, ag ydyw yr un rhai yn y llefydd

hyny. Ymddengys yn debygol iawn fod gwythi'r *Steam Coal*, neu rhai o honynt i'w cael yn y Ddinas hefyd mewn trwch gweithadwy.

Y draul y'nghyd a'r modd i chwilio am dano.

Mi gynygwn yn y lle cyntaf, fod y Pwll mawr, sydd yn wyth-ugain a deg o latheni cisioes (ac yn gyfagos i'r *air and pumping pit* adnabyddus wrth yr enw Pwll-bach sonedig) i gael ei *sinko* ddau cant a deg-llath-ar-ugain i lawr, nes bod yn 400 o latheni o'r wyneb, a phrofi felly 100 llath o ddyfnder islaw gwaelod y Pwll-bach; yr hyn debygwyf fyddai ddigonol i brofi llawer, os nad yr oll o wythi'r *Steam Coal* sonedig. Tuag at wneuthur hyn gyda'r draul leiaf, cynygwyf fod y *Steam Engine*, sydd yn awr yn ddifudd wrth bwll y Nant-ddu, i gael ei symud, a'i gosod i fyny i'r pwrpas o *sniko*, a chodi'r *rubbish;* ac fod y rhod ddwfr sydd y'nglyn wrth *bumpau'r* Pwll bach i gael ei hadgyweirio a'i harferyd i godi'r dwfr o waelod y Pwll bach; at ba wasanaeth mae llawer o bibau'n barod yn y cyfryw bwll, ac y mae genym ar y gwaith ddigon, neu yn agos digon, o bibau i wneyd i fyny yr hyn ydynt yn fyr i waelod y cyfryw bwll. Fod y dwfr a gyfarfyddir ag ef yn y can llath isaf o'r pedwar cant (yr hyn wrth bob tebyg ni fydd yn llawer) i gael ei godi mewn *Buckets* gan y *Steam Engine* i afael y *pumpau* sonedig.

I brofi'r gwythi'r *Steam Coal*, neu rai o honynt, am y dyfnder a enwyd, yn y dull uchod, ni fyddai'r draul feddyliwyf uwchlaw dwy fil o bunnau.

Y draul i agor at y glo ar dir Twyn-yr-hyfen drwy'r *fault* i'r dau cant erw tu draw, a'r tebygolrwydd fod glo i'w gael yno.

Gan fod gwythien o lo a ystyriwyf yr un a'r Ddinas *No.* 2 yn y golwg ar ymylau deheuol a gogleddol y rhandir hwn, tu draw i'r *fault* sonedig, ac fod y cwerydd am gryn ffordd i'r gorllewin ynddo, yn gymharol wastad, a chyfan, casglwyf fod y Ddinas *No.* 3 i'w chael yn y dyfnder penodol o bedwar-ugain llath dani.

Mae fod y *No.* 2 cyfuwch ag ydyw, yn arddangos fod y *fault* sonedig yn taflu'r cwbl i fyny oddeutu pedwar-ugain llath; gan hyny fod y *No.* 3 wedi cael ei thaflu i fyny felly o ben blaen y *Level:* byddai felly'n ofynol agor *Incline heading* o tua phedwar cant o latheni o hyd, er cyrhaedd y glo ar hyd ffordd y gellid yn briodol ei drosglwyddo allan.

Byddai'r draul o wneuthur ffordd o'r cyfryw led, a oddefai ddwy heol ynddi, ar oledd i fyny; adeiladu rhanwal o briddfeini pedwar can llath o hyd rhwng yr heolydd hyny; a gosod geri pwrpasol, a phethau eraill gofynol er trosglwyddo'r glo i wared ar hyd y cyfryw heolydd; yn rhyw beth tua 1500p. Mae genym lawer o ddefnyddiau at y gwaith.

Eich ufydd a gostyngedig was,

DANIEL THOMAS.

Cafwyd y *Steam Coal*, sef y Pedair uchaf, y'mhen tri cant a thri-ugain llath o'r wyneb, yn saith troedfedd o drwch ar gyfartaledd; a chystal y'mhob ystyr a'r goreuon sydd yn y farchnad.

(I'w ddiweddu yn y nesaf.)

BYWGRAFFIAD EVAN THOMAS.

AR ddydd Gwyl Fair, y 25ain o Fawrth, dydd a wnaed yn anghofiadwy gan lawer ymadawiad trist o bryd i'w gilydd, yn ein gwlad ni, tua haner awr wedi naw yn y nos, yr aeth ein cyfaill ieuanc, Evan Thomas, trwy ei ymdrech olaf ar y ddaear. Nis gall fod llawer o ddygwyddiadau cyffrous ac anarferol yn nglyn â gwr mor ieuanc ac â bywyd wedi ei gyflwyno i yrfa o fyfyrdod ar gyfer y weinidogaeth. Eto perthyn i hanes Evan Thomas rai pethau teilwng o'u cofnodi; yn un peth o barch i fuchedd ieuanc mor hardd; hefyd o gydymdeimlad â rhieni a

cheraint galarus, yn gystal ag er siampl ac anogaeth i wyr ieuainc eraill i geisio rhagori yn eu hoes.

Mab oedd y trancedig i John a Hannah Thomas, yn awr o *Factory* Crugyreryr, ger Talgareg, Ceredigion. Ganwyd ef yn Rhyd, Criboerfach, ty anedd ag sydd heddyw yn adfeilion. Yr oedd yn un o ddeuddeg o blant, chwech o fechgyn a chwech o ferched, y trydydd plentyn, eithr y mab henaf. O'r teulu lluosog nid oes erbyn hyn ond yr haner wedi eu gadael, dau fab, a phedair o ferched. Pan yn hogyn cafodd y frech goch a'r dwymyn goch yn fuan ar ol eu gilydd, ac er y pryd hwn nid ymddengys iddo ddod mor gryf ag o'r blaen, eithr ar brydiau dyoddefai i ryw raddau oddiwrth lesgedd a gwendid tufewnol, er nad fel ag i'w analluogi at unrhyw waith hyd at y blynyddoedd olaf o'i fywyd.

Ychydig iawn iawn o fanteision addysg a gafodd yn ei flynyddoedd boreuaf. Yr oedd yr ardal yn bellenig, a chyfleusderau ysgol dda i blant o bump i dair-ar-ddeg oed am bris bychan yn hollol o'r cwestiwn, oddieithr mewn ffordd o eithriad tra anaml yn awr ac yn y man, megys pan fu y diweddar Mr. David Evans o'r Porth, Llandyssul, a Mr. David Thomas (Dewi Hefin), yn awr o Lanwnen, yn cadw ysgol am dymor yn Bwlchyfadfa. Athrawon da oedd y ddau hyn, ond ni fu eu harhosiad yn yr ardal ond byr. Gan nad beth fydd bendithion Cyfraith Newydd Addysg pan ddelo i weithrediad cyflawn, a chredwn mai nid ychydig fyddant, yn enwedig os y chwynir allan o'r mesur yr olion o gulni a rhagfarn enwadiaeth eglwysyddol ag a welir ynddo eto; eto mor agos atom ag ugain mlynedd yn ol yr oedd prinder trist o ysgolion i blant yn y parthau hyn o Sir Aberteifi, a gallem ychwanegu heb ofni crwydro oddiwrth y gwir fod manteision addysg hyd yn nod ar hyn o bryd yn y cymydogaethau dan sylw ym mhell ar ol. O ysgol yr aelwyd y derbyniodd ein cyfaïll ieuanc ei wersi boreuol goreu, yn wir agos yn hollol yr unig wersi. Ond y mae pob lle i feddwl fod y rhai hyn yn dda iawn yn ol yr amgylchiadau. Yr oedd ei rieni ar y ddwy ochr yn ddarllenwyr ac wedi hanu o deuluoedd meddylgar a goleuedig, lle nad oedd traddodiadau gwaelaf a gwrachiaidd chwedlau y dduwiniaeth boblogaidd yn cael eu gweithio i gyfansoddiad y plant gyda llaeth y fron. Mae llawer o ddiffygion yn ddiau mewn teuluoedd Undodaidd. Mewn nifer mawr mae musgrellni a diofalwch dybryd gyda golwg ar hyfforddi y plant mewn arferion meddylgar, a'u gwreiddio mewn golygiadau syml a rhesymol am grefydd. Dwyn eu plant i fyny yn *respectable*, fel ei gelwir, yw y nod mawr gyda rhai: cânt fyned i'r llan, cânt ymgymysgu â Thrindodiaeth yn ei chwythigrwydd gwaethaf, cânt, yn grefyddol, wneyd fel y mynont os y tybir fod y plant yn debyg o gael eu cyfrif yn well, neu o wneyd yn well yn y byd trwy hyn. Nid yw eu crefydd ond yn dom ac yn golled yn ngolwg y rhieni fel yr enillont gyfoeth ac urddas daearol. Yn proffesu bod eu hunain yn Undodiaid, ac i wenu ar anghyssonderau a gwrthuni y credoau poblogaidd, gadawant i'w plant grwydro yn ol i'r Aipht o'r hon y gwaredwyd hwy eu hunain. Cânt addoli y wynwyn a'r cathau os mai gyda'r wynwyn a'r cathau y bydd y rhagolygon tymhorol goreu. Ond y mae yn dda genyf feddwl nad yw hyn yn ddesgrifiad cywir o'r

oll o rieni Undodaidd Cymru, ac yn tra hyderu nad yw y cyfryw y cyfeiriwyd atynt ond eithriadau, y fath y cyfarfyddir â hwy ym mhob cyfenwad crefyddol. Yn y lluaws ni a barhawn i obeithio fod y dôn arferol, fod yr awyrgylch, yn wahanol iawn i eiddo'r cyfryw deuluoedd yn y rhai nid yw crefydd ond *dogma* sych, ond rhyw gatecism neu gilydd i'w ddysgu, ond rhyw ffurfiau ystrydebedig i fyned trwyddynt; lle mae syniadau gwaelaf a theimladau culaf yr hen Buritaniaeth yn cael eu coleddu a'u gwneyd yn oll-yn-oll o grefydd. Ceisir arfer y plant i feddwl drostynt eu hunain, ac i ofyn y rheswm paham gyda chrefydd fel pob peth arall. Dysgir hwy ei bod yn angenrheidiol byw yn dda bob dydd o'r wythnos yn gystal a'r Sul, ac mai nid "dyben crefydd yw'n tristau, na gwneyd yn llai'n dyddanwch." Amcenir dadblygu yr oll o natur hyd y bo modd, ac nid ergydio ar yr ochr grefyddol yn unig, a gwneyd rhyw angenfilod *(monsters)* coel-grefyddol o'r plant i ystyried bugunad amenau yn un o orchwylion santeiddiaf eu bywyd. Bydd ymdrech i feithrin deall a chydwybod, a rheswm a serch pur; i fagu yspryd *manly*, siriol, cymwynasgar, dewr, a difrifol yn y plant; eu gwneyd yn ddynion mewn cymdeithas, nid efryddion a deillion i Ddiafol yr oes i wneyd hafoc o honynt; ond "gwyr perffaith at fesur oedran cyflawnder Crist" erbyn y tyfont i fyny; nid *echoes* ond lleisiau byw a hyawdl, yn llefaru am eu bod yn credu.

Ond rhaid i ni ymattal gyda sylwi fod pob lle i feddwl i'n cyfaill ieuanc gael y fraint o weled ymarferiadau da, a chlywed geiriau gwirionedd a sobrwydd wrth gael ei ddwyn fyny, ac er yn dlodion yn y byd fod gan ei rieni y "golud hawddgar" hwnw i'w ranu rhwng eu plant a lyn wrth y plant ym mhob cyflwr a sefyllfa, ac a'u cychwyn ar yrfa bywyd â thrysorfa o ffydd siriol yn eu calon.

Bu ein cyfaill am tua dau fis mewn ysgol a gynelid yn Pantycetris, ysgoldy lle y mae ysgol wedi ei chadw yn achlysurol er ys llawer o flynyddau, nid nepell o'i gartref ond mewn man tra oer a mynyddig ac anhawdd i blant o bell ffordd ei gyrhaedd. Yr oedd wedi dysgu darllen Cymraeg yn dra ieuanc, ac erioed yn hoff o lyfrau. Gweithiai yn awr gyda'i dad yn y weithfa wlân, a dysgodd yr alwedigaeth yn dda, a gweithiwr diwyd a deheuig iawn oedd: nid yn aml y gwelid ei gystal, ac yr wyf yn ystyried hyn yn glod mawr iddo. Mae llawer o lebanod diog, erioed heb ddysgu gwneyd gorchwylyn o waith, na dim ond bwytta bara segur trwy gydol eu mebyd a'u hieuenctyd wedi ymlusgo o bryd i bryd i'r weinidogaeth. Os diog a diwaith ar y dechreu, diog a diwaith hyd ddiwedd y benod. Yr oedd Evan Thomas yn hylaw ac yn egniol gyda'i alwedigaeth. Mynychai yr Ysgol Sabbothol yng Nghapel y Fadfa yn rheolaidd, a daeth yn fachgen deallus a defnyddiol yn yr ysgol. Yr oedd, o'i oedran, yn awyddus iawn am ddeall ystyr yr hyn a ddarllenai. Yr oedd hefyd yn hoff o ganu, ac am flynyddau hyd nes i efrydiaethau eraill dynu ei sylw, rhagorai fel cerddor ieuanc, a medrai adrodd yn ddoniol yn y cyrddau ysgolion. Yn y flwyddyn 1859 bu am tua thri mis o amser yn yr ysgol dan ofal y Parch. Thos. Thomas yn Pontshân. Yn 1863 bu o Wyl Fair hyd ganol yr haf yn yr ysgol gydag ysgrifenydd y llinellau hyn. Gwasanaethodd yr ychydig hyn o ysgol i ddihuno ynddo awydd cryfach nag erioed am wybodaeth.

Aeth adref i'r weithfa wlân, a dywedodd wrth ei dad ei fod yn benderfynol i weithio yn galed i enill arian i gael dychwelyd i'r ysgol. Felly y bu; gweithiai gyda'i dad gan dderbyn cyflog, ac yr oedd ei glod fel gweithiwr trwy y wlad. Ym Mai 1864 daeth yn ol i'r ysgol yn Llandyssul, ac yma y bu nes pasio, er mawr foddlonrwydd i'w arholwyr, yr arholiad wrth fyned i mewn i Goleg Caerfyrddin yn Mehefin 1867. Bu yn yr ysgol uchod drachefn nes oedd y Coleg yn agor ddechreu yr Hydref canlynol, er perffeithio ei hun ar gyfer ei yrfa golegol. Yn y blynyddau hyn y bu ein cyfaill ieuanc yn Llandyssul, nis arbedodd ei hun. Wrthi yn fore, wrthi yn hwyr; penderfyniad di-ildio wedi ei arfogi yn erbyn pob rhwystrau; gwybodaeth a dysg y nod uchel yr oedd wedi ei osod iddo ei hun; talentau naturiol cryfion yn cael eu prysur arferyd i wneyd i fyny am y golled o fanteision boreuol. Nid oedd dim a'i troai yn ol. Wrth ddechreu ar ryw lyfr neu destun newydd, yr oedd yn ddyddorol sylwi ar egni ei benderfyniad i feistroli pob anhawsdra. Ymdaflai yn galonog a chyfan i'r gwaith. Nid oedd ganddo amynedd at fechgyn diog a fynent wneyd ffyn baglau o fechgyn llafurus, ac a ddysgwylient ar ol bob gwers galed dderbyn dyrneidiau o siwgr canmoliaeth, neu a bleidient gyda thôn a golwg ferthyrol am gael haner diwrnod o bleida *(play-day)*. Dysg er mwyn dysg oedd hi gydag ef. Meddai Schiller:—

> "Some love her as the goddess great,
> Some as the milch cow of the field,
> Whose only care's to calculate
> The milk and butter she will yield."

Nid felly gyda'n cyfaill ieuanc. Nid caru'r ferch er mwyn ei gwaddol oedd. Caru er mwyn caru yn hytrach. Cymerai hyfrydwch ym mhob efrydiaeth. Ymbleserai i ymdrechu. Yr oedd bod yn yr ysgol yn nefoedd i'w deimlad. Ni wastraffai ddim o'i amser. Arferai Theodore Parker ddyweyd mai y fraint fwyaf posibl i ddyn oedd cael talentau gan Dduw, a chael gyda hyn gyfleusderau ffafriol i ddodi'r talentau hyny ar waith, a dyna, gellid meddwl oedd teimlad ein cyfaill ieuanc. Yr oedd ei syched am bob math o wybodaeth yn angerddol. Fel y clywir plant bychain yn dyweyd eu bod yn "bwytta'r dwr" a yfant, felly y gellid dyweyd am dano yntau y pryd hwn, ac yn wir tra y bu byw, ei fod mor awyddus ag i fwytta dyfroedd iachusol dysg.

(I'w ddiweddu yn y nesaf.)

BREAD AND CHEESE AND KISSES.

(*Unitarian Herald*, 10th Sept., 1870.)

One day when I came home fatigued,
And felt inclined to grumble.
Because my life is one of toil,
Because my lot was humble,
I said to Kate, my darling wife,
In whom my whole life's bliss is,
"What have you got for dinner, Kate?"
"Why, bread-and-cheese and kisses."

BARA-'CHAWS A CHUSAN.

(CYFIEITHAD.)

Pan ddeuais adre'n flin rhyw ddydd,
Mewn tuedd llêd rwgnachllyd,
Waith gorfod gweithio'n galed iawn,
A bod mor llwm fy mywyd,
Gofynais i fy anwyl wraig,
Yr hon yw ngwynfyd dyddan,
"Pa beth yw'r giniaw, Mari, dwed?"
"Pam, bara-'chaws a chusan."

Though worn and tired my heart leaped up
As those plain words she uttered,
Why should I envy those whose bread
Than mine's more thickly buttered?
I said, "We'll have dessert at once."
"What's that," she asked. "Why this is."
I kissed her. Ah, what better meal
Than bread-and-cheese and kisses?

I gazed at her with pure delight;
She nodded and smil'd gaily;
I said, "My love, on such a meal
I'd dine with pleasure daily.
When I but think of you, dear girl,
I pity those fine misses
Who turn their noses up and pout
At bread-and-cheese and kisses."

"And when I look at your dear form,
And on your face so homely;
And when I look in your dear eyes,
And on your dress so comely;
And when I hold you in my arms,
I laugh at Fortune's misses,
I'm blest in you, content with you
And bread-and-cheese and kisses."

Er lludded mawr, ei hateb ffraeth,
Wnai 'nghalon lammu'n holliach,
Pam eiddigeddaf wrth y sawl
Na mi gânt frechtan frasach?
'Rho'r ddysglaid ola' 'nghyntaf, Mair,"
"Beth?" meddai—"Hyn yw f' amcan."
Cusanais hi. Ha, ple ceir saig
Fel bara-'chaws a chusan?

Edrychais arni'n llawen iawn,
A gwenodd hithau'n hawddgar,
"Fy mun, bob dydd ar y fath fwyd,
Ciniawwn yn 'wyllysgar.
Pan gofiaf di, tosturiaf wrth
Y gwragedd sy'n eu sidan,
Sy'n pwdu ac yn codi'r trwyn
Ar fara-'chaws a chusan."

"Pan sylwaf ar dy luniaidd gorph,
Ac ar dy wyneb siriol;
Ac edrych i dy lygaid llon,
Ac ar dy wisg ddymunol;
A phan gymmeraf di i 'nghôl,
'Rwy'n gwawdio merched Ffortan,
'Rwy'n wir foddlongar arnat ti,
A bara-'chaws a chusan."

Aberdâr. CYNONWYSON.

Bu Farw.

EVAN EVANS.—Dydd Mercher, yr 28ain o Awst diweddaf, Evan Evans, Lion Rampant, Llandyssul, Ceredigion, yn 83 oed. Un difyr iawn a pharod ei reswm oedd yr ymadawedig, ac un o'r dynion mwyaf diniwed yn y gymydogaeth. Claddwyd ef y dydd Gwener canlynol yn Llandyssul. Cyn cychwyn o'r ty, pregethodd y Parch. T. Thomas, Pantydefaid, oddiwrth y geiriau, "Gwyn eu byd y rhai pur o galon; canys hwy a welant Dduw."

JAMES MORRIS.—Medi 11, yn 83 oed, James Morris, Capel Iwan, yr hwn a fuasai arddwr am tua deng mlynedd ar hugain yn y Glasbant, ger Castellnewydd Emlyn. Ei gael wedi marw yn y gwely a wnaed. Yr oedd yn efail gof cymydog, Mr. David Hughes, am tua deg o'r gloch nos Fawrth, a chan ei fod yn byw wrtho ei hun, ac yn well ei iechyd nag oedd wedi bod er ys tro yn ol, ni ddarfu i neb fyned i mewn i'r ty hyd tua phedwar ar y gloch prydnawn dydd Mercher. Ni farnodd y *coroner* yn angenrheidiol i gadw treng-arholiad, gan nad oedd yr un ddrwgdybiaeth o gamwri. Yr oedd yr hen frawd wedi marw fel pe yn ei gwsg. Bu'r gladdedigaeth dydd Sadwrn yn mynwent Capel Iwan o'i ddewisiad ei hun, y Parch. William Thomas, Llwyn, yn gweini ar yr achlysur. Aelod henaf eglwys y Pantteg oedd James Morris, yn gystal a diacon. Dyn call, digynhen, selog, a dichlynaidd, defnyddiol iawn ym mhlith yr ychydig enwau sydd wedi eu gadael yn Sardis fechan y Pantteg. Nid oedd ei le ef byth yn wag tra yn iach. Dyn deheuig iawn ydoedd fel garddwr ac mewn pob math o alwedigaeth gyffredin. Gedy enw da dihalog ar ei ol. Perchid ef yn y gymydogaeth fel Cristion cywir a gonest; cymydog caruaidd ac Undodwr cysson a goleuedig. Ei goffadwriaeth sydd fendigedig. Syrthied deuparth ei ysbryd ar yr ychydig ffyddloniaid sydd yn dal i ymgynull i Pantteg, a bydded ei ymadawiad ef o'u plith yn gymhelliad iddynt ddyblu eu diwydrwydd gyda'r achos da fel pan ddelo'r alwad am danynt y byddo'u diwedd hwynt fel yr eiddo yntau. Bu yn briod dair gwaith. Caffed y plant adnabod Duw eu tad.

MARY DAVIES.—Medi 18, yn 86 oed, Mary Davies, Gwarcefel, Llandyssul. Hen ferch weddw, diddrwg, a diddymuniad drwg i neb oedd yr hen chwaer. Aelod henaf Llwynrhydowen, ac un a barhaodd hyd y diwedd. Claddwyd hi yn mynwent Carmel, pan y pregethodd y Parch. W. Thomas yn y capel, ac yr anerchodd y Parch. T. Phillips, Horeb, y dorf ar lan y bedd gan derfynu trwy weddi.

ARGRAFFWYD GAN C. & D. JONES, HEOL-Y-BRENIN, CAERFYRDDIN.